


Adolygiad Lleol:

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Asesu'r ffordd y mae'r broses
o sgrinio'r fron yn cael ei
rheoli'n amserol ar gyfer
menywod sy'n cael canlyniad
mamogram abnormal



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

Ffôn: **0300 062 8163**

E-bost: **hiw@gov.wales**

Gwefan: **www.agic.org.uk**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English



Cynnwys

- 5 Rhagair
- 6 Crynodeb
- 7 Cefndir
- 9 Yr hyn a wnaethom
- 10 Yr hyn a nodwyd gennym
 - 10 Ansawdd Profiadau
 - 16 Trefniadau'r Gweithlu
 - 23 Prosesau Gweinyddol
 - 26 Llywodraethu
- 29 Casgliadau
- 30 Beth nesaf?
- 31 Atodiad A – Argymhellion



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:


Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.



Rhagair

Fel rhan o raglen adolygu leol 2019/20, gwnaethom ymrwymo i gynnal adolygiad o Bron Brawf Cymru, sef yr is-adran o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu rhaglen sgrinio'r fron y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

Wrth ei ysgrifennu bu'n rhaid i wasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru ateb heriau pandemig byd-eang Covid-19. Yn sgil y sefyllfa sydd ohoni rhoddwyd pwysau unigryw, nas gwelwyd o'r blaen, ar y system a fydd yn parhau dros y gaeaf. Mae gwasanaethau wedi gorfod addasu, newid ac ehangu er mwyn ymdopi â'r pwysau a rhaid canmol yr ymateb a welwyd ledled Cymru.

Mae'n bwysig nodi y cafodd yr adolygiad hwn a'r gwaith maes eu cynnal cyn pandemig COVID-19 a'n bod wedi oedi'r broses o gyhoeddi'r adroddiad hwn yn sgil ein mesurau i leihau baich ein gwaith ar wasanaethau pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Felly, nid yw ein hadolygiad wedi ymchwilio i'r ffordd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni ei rôl na'r ffordd yr ymatebodd yn ystod y pandemig.

Diben yr adolygiad yw asesu a yw Bron Brawf Cymru yn rheoli ei phroses sgrinio'r fron mewn modd amserol, ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal¹. Rhesymeg gwneud hyn yw y dylid sicrhau bod angen aros cyn lleied o amser â phosibl am ymchwiliadau dilynol a chanlyniadau, a hynny er mwyn lleihau'r gofid y gall menywod ei brofi.

Mae'n bwysig nodi bod Bron Brawf Cymru yn darparu gwasanaeth sgrinio cenedlaethol ar gyfer menywod rhwng 50 a 70 oed. Mae'r gwasanaeth sgrinio hefyd yn cael ei gynnis i fenywod sydd wedi cael eu hasesu gan y Gwasanaeth Geneteg lle nodwyd eu bod yn wynebu mwy o risg o gael canser y fron. Felly, mae'n wasanaeth gwahanol i'r gwasanaethau gofal y fron a ddarperir o fewn y byrddau Iechyd Lleol, lle bydd menywod yn gweld eu Meddyg Teulu am fod ganddynt symptomau ac yna'n cael eu hatgyfeirio at yr ysbyty.

Hefyd, dim ond cyfran fechan o'r menywod a elwir yn ôl am ymchwiliad pellach o fewn rhaglen Bron Brawf Cymru sydd â chanser y fron. Felly, yn achos y rhan fwyaf o'r menywod sydd wedi cael canlyniad abnormal, gall unrhyw oedi wrth gynnal ymchwiliadau pellach a chael canlyniadau beri gofid iddynt, yn hytrach na'u bod yn cael diagnosis o ganser sydd wedi'i oedi a'r driniaeth ddilynol.

Nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at y themâu allweddol, arferion da ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella Rhaglen Sgrinio'r Fron genedlaethol yng Nghymru.

Hoffem ddiolch o galon i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn, ac i'r menywod a gymerodd ran ac a rannodd eu barn a'u profiadau â ni. Ystyriwyd barn a safbwyntiau'r menywod a'r staff er mwyn helpu i ddatblygu ein canfyddiadau a'n hargymhellion.



¹ Delwedd pelydr x o'r fron yw mamogram

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn egluro canfyddiadau'r adolygiad o'r ffordd y mae Bron Brawf Cymru yn sicrhau y caiff y broses o sgrinio'r fron ei rheoli mewn ffordd amserol ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal. Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad fel a ganlyn.


Gwelsom fod trefniadau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod menywod a ailelwir i glinig asesu yn cael profiad da. Roedd yr adborth a gawsom gan fenywod yn gadarnhaol iawn, gan gydnabod bod natur garedig a gofalgar y staff yn un o brif gryfderau'r gwasanaeth. Mae ystod eang o wybodaeth ar gael er mwyn helpu menywod i wybod beth i'w ddisgwyl yn eu hapwyntiadau ar gyfer y mamogram cychwynnol a'r clinig asesu. Hefyd nodwyd bod menywod yn cael y cyfle i roi adborth ar y ffordd y gellir gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr rhwng rhanbarthau daearyddol o ran amseroldeb y gofal dilynol a roddir i fenywod ledled Cymru.

Roedd ethos tîm cryf iawn ymhlith y staff ac roedd morâl yn uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, mae swyddi gwag mewn grwpiau hanfodol o staff yn rhoi pwysau ychwanegol ar rai aelodau o staff. Gwelir mai ar y gweithlu yn y gorllewin a'r de-ddwyrain mae'r pwysau mwyaf. Mae hyn am nad oes digon o staff meddygol i redeg clinigau asesu nac ychwaith ddigon o radiograffwyr² i gynnal mamogramau sgrinio cychwynnol. Mae a wnelo problem staff meddygol â phrinder radiolegwyr yn genedlaethol, ac mae hyn o ganlyniad i system ôl-lenwi gyfyngedig lle mae radiograffwyr cymwysedig wedi cael eu dyrchafu i rolau uwch.

Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r problemau hyn drwy gydweithio a rhannu staff rhwng y de-ddwyrain a'r gorllewin. Fodd bynnag, er bod y trefniadau hyn yn hirsefydledig, mae'r prinder staff meddygol wedi arwain at broblemau hirdymor o ran amseroldeb gofal, yn enwedig i fenywod yn y gorllewin. Roedd yn gadarnhaol gweld bod proses newydd wedi cael ei chyflwyno lle mae staff yn y gogledd yn cwblhau cryn dipyn o'r gwaith o ddarllen delweddau mamogramau ar gyfer y gorllewin, sydd wedi arwain at wella amseroldeb gofal yn sylweddol. Fodd bynnag, nodwyd nad oes cynllun hirdymor ar gyfer y gweithlu ar waith er mwyn sicrhau cadernid a sicrwydd y gweithlu at y dyfodol, ac ar y cyfan ystyrir bod y gwasanaeth yn un rhanbarthol yn hytrach na chenedlaethol.

Roedd y gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ac roedd amrywiaeth o brosesau a gweithdrefnau gweinyddol manwl yn sail iddo. Mae rheolaethau mewnol cadarn ar waith i leihau unrhyw wallau er mwyn sicrhau bod menywod yn cael y canlyniad cywir, ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus iawn am y trefniadau hyn. Fodd bynnag, gall fod cyfle i symleiddio'r rheolaethau sicrwydd mewnol ymhellach er mwyn lleihau'r baich ar y timau gweinyddol. Hefyd nodwyd bod y prosesau a'r gweithdrefnau manwl yn amrywio rhwng y rhanbarthau daearyddol, ac er bod modd cyfiawnhau hyn mewn rhai achosion, mae mantais bosibl i safoni'r rhain lle y bo modd. Rhaid i'r gwasanaeth hefyd sicrhau bod ffordd fwy cyson a systematig o gofnodi a rhannu newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau.

Ar y cyfan roedd llinellau atebolrwydd clir ar draws y gwasanaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd o fewn y timau radioleg, ac roedd prosesau da ar waith hefyd i adolygu perfformiad ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Fodd bynnag, mae amseroldeb trefnu clinigau asesu, a'r oedi dilynol wrth roi apwyntiadau i fenywod, wedi bod yn broblem ers peth amser.



² Disgrifir prif gyfrifoldebau radiolegwyr a radiograffwyr mewn tabl ar dudalen deg o'r adroddiad.

Cefndir

Mae Bron Brawf Cymru yn darparu gwasanaeth sgrinio cancer y fron i fenywod rhwng 50 a 70 oed yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu. Hefyd, gall menywod 70 oed a throsodd hunanatgyfeirio ac mae'r garfan hon yn cyfrif am tua 5 y cant o'r holl fenywod sy'n cael eu sgrinio bob blwyddyn.

Dangosir prif amcan Bron Brawf Cymru isod:

*"Nod y rhaglen sgrinio'r fron yw lleihau afiachusrwydd a marwolaeth o ganser y fron. Gwneir hyn drwy ganfod cancer yn gynnar gan alluogi triniaeth brydlon"*³.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu ledled Cymru drwy bedair canolfan sefydlog ac un ar ddeg o unedau symudol. Lleolir y canolfannau yn Llandudno, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd. Rhennir y gwasanaeth yn dri phrif ranbarth daearyddol, sy'n cynnwys y canolfannau a'r unedau symudol, Sef y gogledd (Llandudno ac is-ganolfan Wrecsam), y gorllewin (canolfan Abertawe) a'r de-ddwyrain (canolfan Caerdydd).

Trosolwg o'r Broses o Sgrinio'r Fron

Anfonir llythyr at bob menyw sydd rhwng 50 a 70 oed yn ei gwahodd am famogram bob tair blynedd. Yn 2018/19 cafodd mwy na 145,000 o fenywod eu gwahodd i gael eu sgrinio a chafodd bron 115,000 o'r menywod hynny eu sgrinio.

Darlennir y mamogram er mwyn nodi unrhyw annormaleddau posibl. Gwneir hyn gan staff meddygol neu uwch-radiograffwyr sydd wedi cael hyfforddiant lefel uwch ar ddarllen delweddau⁴. Bydd dau ddarlleniad annibynnol bob amser yn cael eu gwneud gan wahanol aelodau o staff, nad ydynt yn gwybod canlyniad y naill na'r llall.

Os bydd un o'r darllenywyr, neu'r ddau ohonynt, yn nodi abnormalrwydd, gwneir trydydd darlleniad drwy broses gyflafareddu neu gonsensws. Disgrifir y rhain yn fanylach yn yr adran ar y gweithlu yn yr adroddiad hwn.

Os na welir unrhyw abnormalrwydd ar y mamogram, gwahoddir y menywod am famogram arall ymhen tair blynedd.

Os nodir abnormalrwydd, gwahoddir y menywod i glinig asesu am ragor o brofion. Gall hyn gynnwys mwy o ddelweddau mamogram, uwchsain neu fiopsi⁵. Yn 2018/19 gwahoddwyd tua 4 y cant o'r menywod a gafodd eu sgrinio i glinig asesu.

Os cynhelir biopsi, edrychir ar y canlyniadau drwy'r adran batholeg ac fe'u trafodir mewn cyfarfod amlddisgyblaethol lle y bo'n briodol. Os bydd canlyniad yr ymchwiliad pellach yn anfalaen (di-ganser), gwahoddir y fenyw am famogram arall ymhen tair blynedd.

Os bydd y canlyniad yn falaen (canseraidd) trosglwyddir y fenyw i'r bwrdd iechyd lleol i gael triniaeth. Yn 2018/19 nodwyd 1,076 o ganserau, sef tua 1 y cant o'r holl fenywod a gafodd eu sgrinio, ac 20 y cant o'r holl fenywod a ailalwyd i'w hasesu.


Safonau Cenedlaethol

Mae Bron Brawf Cymru yn dilyn Safonau Cenedlaethol Rhaglen Sgrinio'r Fron y GIG⁶. Mae'r safonau yn cynnwys 18 o fesurau â throthwyon gofynnol a ddefnyddir i bennu'r lefel isaf o berfformiad a ganiateir mewn amrywiaeth o feysydd er mwyn sicrhau diogelwch y claf ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Un o'r 18 o fesurau yw canran y menywod a gaiff gynnig apwyntiad mewn canolfan asesu o fewn tair wythnos i gael mamogram sgrinio cychwynnol. Noda rhesymeg y mesur y canlynol:

"It is important to minimise anxiety in women who need to attend further screening tests to obtain a definitive malignant, benign or normal diagnosis"

Pan gafodd y safonau eu cyflwyno gyntaf ym mis Ebrill 2017 pennwyd trothwy o 90 y cant ar gyfer y mesur hwn. Yn Lloegr fe'i diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2019⁷ a'i gynyddu i 98 y cant, ond ni wnaed hyn yng Nghymru a defnyddir y trothwy o 90 y cant i fesur perfformiad.



³ <https://icc.gig.cymru/files/adroddiadau-adran-sgrinio/adroddiad-blynyddol-adran-sgrinio-ionawr-2020/>

⁴ Bydd darllenywyr delweddau yn edrych ar luniau mamogram er mwyn nodi a yw'r pelydr-x yn glir neu a oes unrhyw annormaleddau posibl.

⁵ Yn ystod biopsi cymerir sampl o gelloedd i'w profi am gelloedd canseraidd. Gall y biopsi fod yn un a gynhelir â chymorth sugn neu'n un stereo craidd.

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/breast-screening-consolidated-programme-standards>

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/breast-screening-consolidated-programme-standards/breast-screening-supporting-information>

Yn ystod ein cyfarfodydd cychwynnol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i bennu cwmpas yr adolygiad, cawsom wybod bod perfformiad ledled Cymru yn sylweddol is na'r trothwy. Ym mis Awst 2019 y canlyniad cenedlaethol oedd 44 y cant. Cawsom wybod mai'r rheswm dros hyn oedd heriau hirsefydledig o ran y gweithlu, a oedd yn cynnwys prinder cenedlaethol o Radiolegwyr, ac roedd yn broblem benodol yn y gorllewin. O edrych ar y data rhanbarthol ar gyfer mis Awst 2019, gwelsom fod 145 o fenywod yn y gorllewin wedi cael eu hailalw i glinig asesu. Fodd bynnag, dim ond un fenyw a gafodd gynnig apwyntiad o fewn tair wythnos i'r mamogram sgrinio cychwynnol.

Gweithlu Bron Brawf Cymru

Mae Bron Brawf Cymru yn cynnwys tîm o staff amlddisgyblaethol sy'n cynnwys gweithwyr meddygol, nyrsio a radiograffeg proffesiynol. Mae'n bwysig nodi bod rhai o'r rolau yn gofyn am yr un sgiliau, yn enwedig y staff sy'n gallu cynnal clinigau asesu ar eu pen eu hunain, a'r staff a all ddehongli neu ddarllen y mamogramau. Nodwyd y ffactorau hyn yn y tabl isod, ynghyd â'r prif gyfrifoldeb ar gyfer pob rôl:

Grŵp Staff	Rôl	Prif Gyfrifoldeb	Dehongli Mamogramau	Arwain Clinig Asesu
Meddygol	Radiolegydd	Meddyg arbenigol sydd wedi cael hyfforddiant lefel uwch ym maes radioleg diagnostig ac, yn yr achos hwn, wedi arbenigo mewn delweddau o'r fron.	le	le
	Clinigydd y Fron	Meddyg arbenigol sydd wedi cael hyfforddiant lefel uwch ym maes delweddau o'r fron.	le	le
Radiograffeg	Radiograffydd Ymgynghorol	Radiograffydd arbenigol sydd wedi cael hyfforddiant lefel uwch i allu dehongli delweddau, archwilio cleifion, cynnal uwchseiniau, biopsïau, rhoi diagnosis, ac arwain clinigau asesu.	le	le
	Uwch Ymarferydd	Radiograffydd sydd wedi cael hyfforddiant pellach i ddehongli delweddau a / neu gynnal biopsi. Ni all weithio mewn clinig heb Radiolegydd na Radiograffydd Ymgynghorol.	le	Na
	Radiograffydd	Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i lechyd sy'n gweithio ar y faniau sgrinio, ac mewn clinigau asesu yn gwneud gwaith delweddu ychwanegol. Nid yw'n dehongli delweddau.	Na	Na
	Ymarferydd Cynorthwyol	Cynorthwydd gofal iechyd sydd wedi cael hyfforddiant ym maes delweddau mamogram, a all weithio ar fan sgrinio dan oruchwyliaeth Radiograffydd. Hefyd ynghlwm wrth ddehongli delweddau yn y canolfannau.	Na	Na
	Gweithiwr Cymorth Delweddau Clinigol	Cynorthwydd gofal iechyd sydd wedi cael hyfforddiant i gynorthwyo staff clinig.	Na	Na
Nyrsio	Nyrs Gofal y Fron	Staff nyrsio sy'n cefnogi menywod ac yn darparu gwybodaeth pan gaiff menyw ei hailalw i glinig asesu.	Na	Na
	Nyrs Clinig y Fron	Nyrs sy'n cynorthwyo clinigydd gyda dyletswyddau nyrsio a hebrwng yn y clinigau.	Na	Na
Gweinyddol	Swyddfa Sgrinio'r Fron ac Ysgrifenyddion Meddygol	Yn gyfrifol am anfon llythyrau at fenywod, trefnu clinigau asesu a delio â gohebiaeth.	Na	Na

Yr hyn a wnaethom

Pwyslais yr adolygiad

Fel y nodwyd eisoes, diben ein hadolygiad oedd asesu'r ffordd y mae Bron Brawf Cymru yn sicrhau y caiff y broses o sgrinio'r fron ei rheoli'n amserol ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal. I gyflawni hyn, gwnaethom edrych ar y prif themâu canlynol:

- **Ansawdd y profiad** – gan gynnwys profiad cyffredinol, gofal amserol, gwybodaeth a chyfathrebu, a dysgu o adborth
- **Trefniadau'r gweithlu** – gan gynnwys strwythur y gwasanaeth, y broses adrodd ar gyfer delweddau a'r ymateb i'r heriau presennol
- **Prosesau gweinyddol** – gan gynnwys gweinyddu clinigau asesu, dulliau rheoli mewnlol ac adolygiad o weithdrefnau gweithredu safonol
- **Llywodraethu** – gan gynnwys atebolrwydd a'r ffordd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw broblemau, yn cymryd camau ac yn monitro perfformiad. .

Cwmpas

Gwnaethom ystyried llwybr menywod o'r apwyntiad sgrinio cychwynnol hyd at wneud penderfyniad ynghylch trosglwyddo menyw i'r bwrdd iechyd i gael triniaeth.

Ni chafodd y meysydd canlynol eu hystyried fel rhan o'r adolygiad:

- Y broses o wahodd menywod i apwyntiadau sgrinio cychwynnol
- Hybu a diweddarau gwasanaethau sgrinio Bron Brawf Cymru
- Rhoi canlyniadau i fenywod sydd wedi cael mamogram clir yn y lle cyntaf ac sy'n cael eu hailalw ymhen tair blynedd
- Y cam trosglwyddo, lle y caiff gofal ei drosglwyddo o Bron Brawf Cymru i'r bwrdd iechyd lleol.

Methodoleg

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod gwnaethom gynnal cyfweiliadau ag amrywiaeth o staff yn ystod mis Chwefror 2020, gan adolygu dogfennau perthnasol, data ar berfformiad ac ystadegau.

Yn ystod ein gwaith maes, gwnaethom siarad â staff strategol a gweithredol ym mhencadlys Iechyd Cyhoeddus Cymru, a staff mewn canolfannau sgrinio'r fron rhanbarthol yng Nghaerdydd, Llandudno ac Abertawe. Gofynnwyd i'r staff gwblhau holiadur ar-lein di-enw er mwyn rhannu eu barn a'u profiadau o weithio i Bron Brawf Cymru. Yr arolwg

staff yw'r enw a roddir i'r holiadur yn yr adroddiad hwn ac roedd ar gael i'r staff ei gwblhau ar-lein yn ystod mis Chwefror 2020.

Hefyd gwnaethom lunio holiadur i fenywod ei gwblhau er mwyn casglu eu barn am y gwasanaeth a gafwyd. Cawsom help gan staff Bron Brawf Cymru i anfon llythyr at bob menyw a ailalwyd i glinig asesu i gael rhagor o brofion, yn ystod mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019, ac a gafodd ganlyniad anfalaen (ni nodwyd canser). Yr arolwg cleientiaid yw'r enw a roddir i'r holiadur yn yr adroddiad hwn ac roedd ar gael i fenywod ei gwblhau, naill ai ar ffurf copi caled neu ar-lein, yn ystod mis Chwefror 2020.

Yn ein hadolygiad ystyriwyd sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015)⁸. Rydym wedi nodi'r safon berthnasol yn erbyn pob un o'r argymhellion fel y dangosir yn y cynllun gweithredu ar gyfer ymateb rheolwyr yn Atodiad A. Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan⁹.


Cymryd Rhan yn yr Adolygiad

Gwnaethom ysgrifennu at 1,066 o fenywod a gafodd eu hailalw i glinig asesu a chael canlyniad anfalaen, a derbyniwyd 621 o holiaduron wedi'u cwblhau, sef cyfradd ymateb o 58 y cant.

Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r menywod nodi ym mha ranbarth daearyddol roedd eu canolfan asesu wedi'i lleoli. Nododd 51 y cant ei bod yn y de-ddwyrain, nododd 25 y cant ei bod yn y gogledd, nododd 22 y cant ei bod yn y gorllewin, ac ni wnaeth 2 y cant o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cawsom 74 o ymatebion i'r arolwg staff, a gofynnwyd i'r staff nodi ym mha ranbarth daearyddol roeddent yn gweithio fel arfer. Nododd 27 y cant eu bod yn gweithio yn y de-ddwyrain, nododd 50 y cant eu bod yn gweithio y gogledd, nododd 20 y cant eu bod yn gweithio yn y gorllewin, ac ni wnaeth 3 y cant o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Yn yr arolwg staff rhoddwyd opsiwn i'r staff nodi a oedd y cwestiwn yn gymwys i'w rôl. Er enghraifft, ni fyddai aelod o'r timau gweinyddol yn gallu gwneud sylw am y broses o ddechongli delweddau. Er mwyn sicrhau bod yr ystadegau yn ystyrlon, rydym wedi dileu unrhyw ymatebwyr yn y categori hwn o'r dadansoddiad.



⁸ <https://llyw.cymru/safonau-iechyd-gofal>

⁹ <https://agic.org.uk/arolygu-gofal-iechyd>

Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiadau

Gwelsom fod trefniadau ar waith i helpu i sicrhau bod menywod a ailelwir i glinig asesu yn cael profiad da. Roedd yr adborth a gawsom gan fenywod yn gadarnhaol iawn, gan gydnabod bod natur garedig a gofalgar y staff yn un o brif gryfderau'r gwasanaeth. Mae ystod eang o wybodaeth er mwyn helpu menywod i wybod beth i'w ddisgwyl yn eu hapwyntiadau a chânt y cyfle i roi adborth ar y ffordd y gellir gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr rhwng rhanbarthau daearyddol o ran amseroldeb y gofal a roddir i fenywod ledled Cymru.

Gall y profiad o gael eu hailalw i glinig asesu i gael ymchwiliad pellach beri cryn ofid i fenywod, yn enwedig am nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau ac y gallant fod yn iach fel arall. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod menywod yn cael y profiad gorau posibl, er mwyn lleihau unrhyw ofid. Dylai hyn gynnwys profiad cyffredinol cadarnhaol, gofal amserol, y wybodaeth briodol a'r cyfle i roi adborth ar eu profiad.



Profiad Cyffredinol

Roedd y menywod yn gadarnhaol iawn am y profiad cyffredinol o gael eu hailalw i glinig asesu. Yn ein harolwg cleientiaid, nododd 89 y cant o'r ymatebwyr fod eu profiad cyffredinol yn ardderchog, a dywedodd 98 y cant fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch bob amser. Roedd y sylwadau a roddwyd gan fenywod yn yr arolwg yn gadarnhaol iawn,

gan gynnwys llawer o sylwadau yn canmol proffesiynoldeb a natur ofalgar y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r cwmwl geiriau uchod yn dangos y geiriau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan fenywod i ddisgrifio eu profiad.

“Gwasanaeth gwych. Staff cyfeillgar, llawn gwybodaeth. Gwnaethant bopeth posibl, yn fy marn i, i wneud y profiad mor gyfforddus ag y gallent.”

“Roedd y gwasanaeth yn broffesiynol ac roedd y staff mor garedig a pharod eu cymwynas a wnaeth yn sicrhellu i wneud adeg anodd yn brofiad gwell”

“(Yn fy marn i) mae gennych chi staff cwrtais tu hwnt, sy'n dangos parch a gwnaethant brofiad, a oedd yn anodd i ddechrau (cael eich ailalw), mor ddiraffferth â phosibl. Diolch.”

“O'r foment y gwnes i gyrraedd, eglurwyd popeth am yr hyn roeddwn i ar fin ei brofi. Cefais fy nhrin gan bob aelod o staff â'r parch mwyaf, gan geisio tawelu fy meddwl. Fel y gallwch chi ddychmygu roedd gwir ofn arnaf.”

“Mae cael llythyr dilynol yn anodd iawn, ond mae'r holl staff - gweithwyr y dderbynfa, y nyrsys a'r meddygon ymgynghorol - mor garedig a gofalgarn rydych yn teimlo'n well mewn dim amser. Rydych yn cael eich trin â pharch gan bawb.”

Barn rhai o'r menywod a ddefnyddiodd y gwasanaeth

Yn ystod ein gwaith maes roedd yn amlwg iawn bod y staff yn ymrwymedig i'r gwasanaeth, a gwnaeth llawer o'r rheini y gwnaethom siarad â nhw ddangos cryn dipyn o empathi tuag at bryderon y menywod. Roedd hyn yn cynnwys staff o bob rhan o'r gwasanaeth: staff meddygol, radiograffeg, nyrsio a gweinyddol. Roedd canlyniadau'r arolwg staff hefyd yn gadarnhaol iawn, gyda 97 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon ar ansawdd y gwasanaeth a roddir i fenywod. Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau gan staff, yn bennaf yn y gorllewin, am brinder staff a allai, ar adegau, effeithio ar ofal. Trafodir staffio yn fanylach yn yr adran ganlydol ar y gweithlu.

“Mae'r gofal a roddir i fenywod gan bob aelod o'r staff yn ardderchog.”

“Rwy'n mwynhau gweithio yn Bron Brawf Cymru oherwydd rwy'n hyderus y gallaf ac fy mod yn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i'm cleifion, gyda thim rheoli cefnogol ac ymatebol, a thim ardderchog o staff wrth fy ochr.”

“Rwy'n falch o fod yn rhan o dîm sy'n delio â menywod a gaiff eu hailalw i gael archwiliadau pellach a phrofion mewn ffordd ofalgarn ac empathetig. Rwy'n cael llawer o foddhad yn fy swydd o allu cefnogi menywod ar adeg ofidus iawn.”

Barn y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

Cydnabyddwyd yn eang gan y staff y gwnaethom siarad â nhw bod cael llythyr yn eich gwahodd i glinig asesu yn sioc, ac y gall beri cryn ofid i fenywod. Er mwyn helpu i gefnogi menywod drwy'r broses hon, gwelsom fodod Nyrsys Gofal y Fron ym mhob canolfan i ddarparu cymorth a thawelwch meddwl i'r menywod. Mae'r cymorth hwn ar gael o'r adeg y bydd menyw yn cael ei hailalw i glinig asesu, hyd at drosglwyddo'r gofal i'r bwrdd iechyd lleol, os bydd angen triniaeth. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y Nyrsys Gofal y Fron, yn ogystal â grwpiau eraill o staff, yn rhoi pwyslais ar weithio yn seiliedig ar y cleient.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi, yn 2018, i Nyrsys Gofal y Fron ledled Cymru sefydlu cyfres o ddeg Safon Gofal ar gyfer Nyrsys y Fron¹⁰, yn seiliedig ar ganllawiau Public Health England. Maent yn amlinellu'r hyn y gall menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei ddisgwyl, er enghraifft, rhoi gwybodaeth i fenywod am eu canlyniad a gwybodaeth ymwbyddiaeth y fron.

Nodwyd gennym, rhwng mis Ionawr a mis Mai 2019, i archwiliad gael ei gynnal yng nghanolfan sgrinio Abertawe i werthuso p'un a oedd y deg safon yn cael eu cyrraedd ai peidio, a chafwyd canlyniadau cadarnhaol iawn. Tanlinellodd adborth o'r arolwg o Nyrsys Gofal y Fron y gofal proffesiynol a thrugarog a gafodd y menywod. Hefyd nododd nifer o welliannau a fydd yn helpu i wella profiad menywod, yn cynnwys darparu lluniaeth i fenywod wrth iddynt aros am ganlyniadau a sicrhau bod pwynt cyswllt eilaidd i fenywod gysylltu ag ef, os na fydd eu Nyrs Gofal y Fron ar gael neu ei bod ar wyliau.

Cododd rhai o'r Nyrsys Gofal y Fron y gwnaethom siarad â nhw bryderon ynghylch y ffaith bod dryswch ymhlith menywod sy'n cael gwybod bod ganddynt ganser o ran â phwy y dylent gysylltu. Roedd hyn ar y cam y caiff gofal ei drosglwyddo o Bron Brawf Cymru i'r bwrdd iechyd lleol i gael triniaeth, a hynny am nad yw menywod bob amser yn deall yn llawn y broses na'r gwahaniaeth rhwng rolau Nyrsys Gofal y Fron yn Bron Brawf Cymru a'r rhai o fewn y byrddau iechyd.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Cynnal yr archwiliad o safonau cenedlaethol Nyrsys Gofal y Fron ym mhob rhanbarth.

Datblygu dogfennaeth i fenywod â chanser er mwyn nodi'r llwybr gofal a thriniaeth yn glir, gan gynnwys cyfeirio menywod at bwynt cyswllt ar bob cam.

¹⁰ <http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1025/Breast%20Care%20Nursing%20Standards%20Cymraeg%202019.pdf>

Gofal Amserol

Mae gwahodd menyw i glinig asesu mewn modd amserol yn ffactor sylfaenol a wnaiff effeithio ar y gofid y bydd menyw yn ei brofi. Fel y nodwyd yn flaenorol, y safon genedlaethol a ddefnyddir i fonitro hyn yw cyfran y menywod a gaiff gynnig eu hapwyntiad cyntaf yn y clinig asesu o fewn tair wythnos i'r apwyntiad sgrinio cychwynnol. Roedd darlun cymysg iawn ledled Cymru, gyda gwahaniaeth sylweddol rhwng canlyniadau rhanbarthau daearyddol unigol.

Yn ein harolwg cleientiaid, roedd 67 y cant o'r ymatebwyr wedi aros hyd at dair wythnos o'u mamogram cychwynnol i gael cynnig apwyntiad yn y clinig asesu, roedd 19 y cant wedi aros rhwng tair a phedair wythnos ac roedd 14 y cant wedi aros mwy na phedair wythnos. Roedd y canlyniadau hyn yn fwy cadarnhaol na'r rhai a welsom yn adroddiadau perfformiad Bron Brawf Cymru, ond mae'r ffigur o 67 y cant ymhell islaw'r safon genedlaethol o 98 y cant. Felly, mae llawer o fenywod yn aros y tu hwnt i'r targed o dair wythnos ac felly gallant deimlo'n fwy pryderus. Rhoddir canlyniadau rhanbarthol ein harolwg yn y tabl canlynol:

Rhanbarth	Hyd at dair wythnos	Rhwng tair a phedair wythnos
Y gogledd	83%	12%
Y de-ddwyrain	69%	21%
Y gorllewin	44%	23%

Yn ogystal â'r canlyniadau uchod, nododd naw o'r ymatebwyr eu bod wedi aros chwe wythnos neu fwy rhwng apwyntiadau, a oedd yn cynnwys saith menyw o'r gorllewin. Er bod hwn yn nifer bach iawn o'r 621 o ymatebion a gafwyd, cawsom rai sylwadau ynghylch yr angen am amser aros byrrach. Roedd hyn yn cynnwys y sylwadau canlynol gan fenywod a nododd fod eu canolfan asesu wedi'i lleoli yn y gorllewin.

"Naw wythnos o ofidio a phoeni'n ofnadwy rhwng y dyddiad sgrinio cychwynnol a'r dyddiad asesu terfynol."

"Efallai fod angen aros llai o amser rhwng yr apwyntiad sgrinio cyntaf a'r ail lythyr yn dweud wrthyhch fod angen apwyntiad dilynol."

"Mae angen cwtogi'r amser rhwng yr apwyntiad sgrinio cychwynnol a'r canlyniadau - e.e. popeth yn iawn neu angen apwyntiad arall."

Barn menywod a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn y gorllewin


Er i'r canlyniadau o'n harolwg cleientiaid ddangos i draean o'r menywod aros mwy na thair wythnos i gael cynnig eu hapwyntiad cyntaf yn y clinig asesu, yn yr arolwg staff dywedodd 91 y cant o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod Bron Brawf Cymru yn darparu gwasanaeth amserol i fenywod ar y cyfan. Fodd bynnag, tanlinellodd rhai o'r sylwadau fod prinder staff yn rhwystr i ddarparu gofal amserol i fenywod, a hynny'n bennaf ymhlith staff o'r gorllewin. Hefyd, roedd sawl aelod o staff ledled Cymru o'r farn nad oedd apwyntiad sgrinio cychwynnol o bum munud yn ddigon hir, ac y gallai olygu fod yr apwyntiad sgrinio cychwynnol yn teimlo fel petai'n cael ei ruthro.

"Mae'r staff yn gweithio'n galed fel tîm i ymdopi â'r llwyth gwaith a sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni canlyniadau mewn modd amserol."

"Am nad oes digon o staff clinigol, gwelwyd amseroedd aros o hyd at 8 wythnos am apwyntiad asesu y gellid ei osgoi. Mae'r ffaith nad oes digon o staff radioleg i ddarllen a chyflafareddu yn Abertawe yn effeithio ar y broses o drefnu apwyntiadau i fenywod mewn clinigau asesu."

"Er fy mod i'n fodlon ar ansawdd y gofal rwy'n ei ddarparu i gleientiaid, mae'r apwyntiadau 5 munud yn aml yn gwneud i'm practis edrych a theimlo fel petai'n cael ei ruthro."

Barn y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth



Pan wnaethom drafod perfformiad yn erbyn y safon genedlaethol ag uwch-reolwyr, nodwyd gennym bod y staff yn ymwybodol iawn o faterion amseroldeb a'r effaith y gall unrhyw oedi ei chael ar wneud i fenyw ofidio. Hefyd, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn llaesu dwylo o ran amseroldeb, a'u bod yn cydnabod bod y gwahaniaethau rhanbarthol yn golygu bod y gwasanaeth yn anghyson ledled Cymru yn hyn o beth. Gwnaethom ddysgu bod sawl dull gweithredu wedi'i dreialu er mwyn mynd i'r afael â heriau hirsefydledig o ran y gweithlu a lleihau oedi. Fodd bynnag, prinder staff radioleg a'r anallu i recriwtio yn y gorllewin oedd y prif rwystr i ddarparu gofal amserol.

Yn ystod ein gwaith maes roedd yn gadarnhaol gweld bod proses newydd wedi cael ei chyflwyno lle mae canolfan y gogledd yn darllen mamogramau canolfan y gorllewin, a arweiniodd at bob menyw yn y gorllewin yn cael apwyntiad o fewn y safon tair wythnos. Trafodir hyn yn fanylach, ynghyd â'r heriau o ran y gweithlu, yn yr adran ganlynol ar y gweithlu.

Gwybodaeth a Chyfathrebu

Ar y cyfan, roedd y canlyniadau ar gyfer cyfathrebu yn ein harolwg cleientiaid yn gadarnhaol, gyda 95 y cant o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi cael gwybod pa mor hir y byddai angen iddynt aros cyn cael canlyniad y mamogram cychwynnol. Pan wnaethom siarad â'r staff o'r gorllewin ynghylch yr oedi hir, roedd yn gadarnhaol nodi bod y menywod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy hysbysadau yn y faniau sgrinio a'r ganolfan ranbarthol. Hefyd, dywedodd y staff radiograffeg wrthym eu bod yn rhoi gwybod i fenywod am unrhyw oedi, er mwyn helpu i leddfu unrhyw ofid ychwanegol wrth aros am ganlyniad.

Yn ein harolwg, dywedodd 15 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw fanylion cyswllt petai angen unrhyw gyngor arnynt neu petai ganddynt unrhyw bryderon. Roedd hyn yn dilyn eu hapwyntiadau sgrinio cychwynnol a chlinig asesu. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y caiff menywod bwyntiau cyswllt fel mater o drefn. Felly, efallai yr hoffai'r gwasanaeth ystyried y ffordd y caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r menywod ac ar ba ffurf, er mwyn helpu i leihau unrhyw ofid parhaus yn dilyn yr apwyntiad.



Darparu Gwybodaeth

Gwnaethom siarad â staff am y wybodaeth a roddir i fenywod sy'n cael eu sgrinio, ac sy'n cael eu hailalw i ganolfannau asesu. Roedd hyn yn cynnwys y prif daflenni¹¹ isod:

- **Sgrinio'r fron yn y GIG Eich helpu chi i benderfynu** – Fe'i hanfonir at fenywod pan gânt eu gwahodd am eu mamogram sgrinio cychwynnol. Mae'n amlinellu manteision a risgiau sgrinio er mwyn helpu menywod i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch p'un a ydynt am ddod i'r apwyntiad ai peidio
- **Rhesymau Pam Rydych Chi Angen Prawf Arall** – Fe'i hanfonir at fenywod a gaiff eu hailalw i glinig asesu. Mae'n amlinellu'r prif brofion ac ymchwiliadau a all gael eu cynnig
- **Esbonio Sgrinio'r Fron: Hanes y Teulu** - Fe'i hanfonir at fenywod a nodir ac a wahoddir i gael eu sgrinio drwy Raglen Hanes y Teulu. Ynndi ceir gwybodaeth debyg i daflen Eich helpu chi i benderfynu
- **Gofalu am eich bronau** – Fe'i hanfonir at fenywod a gaiff famogramau clir ac a ailelwir i gael eu sgrinio unwaith eto ymhen tair blynedd. Cair cyngor cyffredinol ynndi ar fod yn ymwybodol o ganser y fron.

Roedd y taflenni wedi'u hysgrifennu'n glir ac roeddent yn darparu digon o fanylion i sicrhau bod menywod yn cael digon o wybodaeth cyn eu hapwyntiad. Hefyd, yn ein harolwg cleientiaid, dywedodd 87 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall beth i'w ddisgwyl yn yr apwyntiad sgrinio cychwynnol a'r clinig asesu. Fodd bynnag, gwnaeth rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw godi pryderon am yr amserlenni a nodwyd yn nhaflen Eich helpu chi i benderfynu.

Yn y daflen hon nodir y bydd menywod yn cael llythyr canlyniadau ymhen pythefnos. Fodd bynnag, y targed o bythefnos yw'r safon genedlaethol ar gyfer anfon llythyr yn dilyn sgan clir yn unig, yn hytrach na llythyr yn gwahodd menywod i glinig asesu. Felly, gallai hyn godi disgwyliadau menywod yn annheg, ac arwain at ofid ychwanegol drwy bennu amserlenni na ellir eu cyflawni, os caiff menyw ei hailalw i ganolfan asesu. Hefyd, nododd staff fod yr amserlenni yn nhaflen Hanes y Teulu yn gywir, lle nodir mai'r nod yw anfon llythyr canlyniadau ymhen tair wythnos i'r apwyntiad sgrinio cychwynnol.

¹¹ <http://www.breasttestwales.wales.nhs.uk/taflenni>

Yn ein harolwg cleientiaid gwnaethom ofyn i fenywod nodi unrhyw beth y gellid ei newid er mwyn gwella'r profiad i fenywod eraill. Er na chafwyd fawr ddim awgrymiadau, y ddwy brif thema oedd geiriad y llythyr yn eu gwahodd i glinig asesu a gwybodaeth am barcio.

Nodwyd bod llythyr safonol cryno yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru yn gwahodd menywod i ganolfan asesu, nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol benodol am y rheswm dros eu hailalw. Dywedodd y staff wrthym fod y llythyr ond yn cynnwys y wybodaeth leiaf er mwyn helpu i osgoi mwy o ofid, a oedd yn cynnwys brawddeg mewn print bras yn nodi:

"Four out of five women are given a normal result after more tests"

Fodd bynnag, awgrymodd saith o'r menywod a ymatebodd i'n harolwg cleientiaid y gallai geiriad y llythyr gynnig mwy o sicrwydd, er mwyn helpu i leihau unrhyw ofid.

"Mae geiriad y llythyr ailalw yn amwys iawn. Er bod popeth yn iawn gyda fi, roeddwn i'n poeni'n arw tan yr apwyntiad. Rwy'n deall bod angen cynnwys ystod eang o symptomau, ond mae'n dal i godi braw arnoch chi."

"Gallai'r llythyr sy'n cael ei anfon at y claf ar gyfer y clinig asesu gael ei eirio'n well. Bu angen imi aros wythnos rhwng cael y llythyr a'r apwyntiad. Yn ystod y cyfnod hwnnw ni allwn i gysgu na bwyta, ac fe gollais i tua 5 pwys am fy mod i'n poeni cymaint."

"Roedd y llythyr ailalw yn rhy gyffredinol yn fy marn i, heb unrhyw wybodaeth am yr hyn oedd o'i le â'r sgrinio cychwynnol, gan olygu y gwnaeth fy nheulu cyfan dreulio dros wythnos yn meddwl y gwaethaf. Nid yw'r wybodaeth yn y llythyr ailalw yn rhoi unrhyw dawelwch meddwl ichi ac, yn fy marn i, mae'n rhoi straen ofnadwy ar bawb sy'n ei gael."

Barn rhai o'r menywod a ddefnyddiodd y gwasanaeth

Gallai helpu i leddfu pryderon menywod drwy edrych eto ar eiriad y llythyr yn ofalus er mwyn darparu sicrwydd cyn yr apwyntiad dilynol, er enghraifft, drwy roi enghreifftiau pam y gallai rhywun gael ei ailalw. Efallai yr hoffai'r gwasanaeth hefyd gasglu barn cleientiaid presennol.

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth ychwanegol a roddir gyda'r llythyr eglurhaol ar gyfer y gwahoddiad a nodwyd bod gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei chynnwys am sut i gyrraedd y ganolfan sgrinio a ble i barcio. Fodd bynnag, cododd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw o'r gorllewin bryderon sylweddol ynghylch prinder lleoedd parcio ar y safle ac effaith hyn ar fenywod. Dywedodd y staff wrthym fod menywod yn aml yn cyrraedd eu hapwyntiad yn llawn gofid ac o dan straen, am ei bod wedi bod yn anodd iddynt ddod o hyd i le parcio a'u bod wedi rhuthro i'r apwyntiad.

Tanlinellodd naw o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg cleientiaid bryderon am barcio, a oedd yn cwmpasu pob un o'r tri rhanbarth daearyddol.

"Fy unig feirniadaeth fyddai'r parcio - dywedodd y llythyr fod digon o le i barcio ond nid oedd unrhyw le felly bu'n rhaid imi chwilio strydoedd gerllaw."

"Mae parcio yn y ganolfan asesu yn broblem fawr. Byddai'n syniad da rhybuddio pobl bod angen caniatáu digon o amser i barcio cyn eu hapwyntiad."

"Dim problemau o gwbl gyda'r sgrinio na'r apwyntiad dilynol ond nid oes digon o leoedd parcio yn y ganolfan sgrinio yn Wrecsam."

Barn rhai o'r menywod a ddefnyddiodd y gwasanaeth


Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Diweddarau'r testun yn y daflen er mwyn sicrhau bod yr amserlenni priodol ar gyfer anfon canlyniadau at fenywod wedi'u cynnwys.

Ailedrych ar eiriad y llythyr ailalw er mwyn sicrhau nad yw'n codi cymaint o fraw ac yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i'r menywod.

Darparu mwy o wybodaeth am barcio i gynnwys gwahanol opsiynau o ran ble i barcio a pha mor hir y gall ei gymryd i ddod o hyd i le.



Cyfathrebu a'r Gallu i Gydsynio

Mae'n ofynnol i fenywod ddarparu cydsyniad ar sail gwybodaeth yn eu hapwyntiad cyn iddynt gael eu sgrinio. Mae cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cynnwys y radiograffydd, sy'n gwneud y sgrinio, yn rhoi trosolwg i'r fenyw o'r weithdrefn sgrinio, y manteision tebygol ac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â sgrinio, a allai gynnwys yr angen i ymchwilio ymhellach neu roi triniaeth. Er mwyn i'r cydsyniad ar sail gwybodaeth fod yn ddilys, rhaid i'r radiograffydd fod yn sicr bod y fenyw yn deall y wybodaeth hon ac felly fod ganddi'r galluedd¹² i wneud y penderfyniad hwnnw.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod dull wedi'i gyflwyno yng nghanolfan y gorllewin a ddefnyddir gan y gwasanaeth cyfan, sef sicrhau bod y nifer bach o fenywod na allant ddarparu cydsyniad am nad oes ganddynt alluedd yn dal i allu cael eu sgrinio yn unol ag egwyddor buddiannau pennaf, a chan gynnwys partneriaid neu ofalwyr. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pob grŵp o fenywod yn cael ei sgrinio yn briodol ac amserol.

Anghenion Iaith

Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg¹³. Cydnabyddwn fod hyn yn arbennig o bwysig i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth Bron Brawf Cymru, y gallai fod yn well ganddynt siarad â staff yn eu hiaith gyntaf wrth gael asesiadau a chanlyniadau.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod amrywiaeth o wybodaeth ddwyieithog ar gael i fenywod, yn ogystal â'r defnydd o logo iaith Gwaith¹⁴ ar laniardau staff a phosteri yn y dderbynfa i ddangos bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Hefyd, gwelsom fod cyfleuster dehongli'r Llinell Iaith¹⁵ ar gael i'w ddefnyddio ar ddiwrnod apwyntiad, lle nad oedd menyw yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod recriwtio staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg yn y gorllewin a'r dderbynfa wedi bod yn her o ran y gweithlu, oherwydd y lefel uchel o hyfedredd yr oedd ei hangen ar gyfer swyddi gwag a hysbysebwyd yn ddiweddar, nad oeddent wedi'u llenwi o hyd. Cawsom wybod, er y bu cyfaddawdu o ran lefel hyfedredd ar gyfer rolau clinigol a staff arbenigol, na wnaed hyn ar gyfer y grŵp hwn o staff.

Gwranddo ar Adborth a Dysgu Ohono

Roedd trefniadau da ar waith i gasglu ac adolygu adborth gan fenywod ar gamau gwahanol o'r broses sgrinio. Roedd y broses hon yn cynnwys dau arolwg papur gwahanol, a oedd ar gael i fenywod eu cwblhau yn yr apwyntiad sgrinio cychwynnol ac apwyntiad y clinig asesu. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr arolwg ar gyfer yr apwyntiad sgrinio cychwynnol wedi cael ei ddiweddarau ym mis Ionawr 2020 er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Gwnaethom edrych ar y ddau arolwg a gweld eu bod yn darparu ystod dda o gwestiynau i gasglu barn menywod am eu profiad. Roedd yr arolygon hefyd yn cynnwys cwestiynau am awgrymiadau ar sut y gellir gwella'r gwasanaeth.

Roedd canlyniadau'r arolygon yn gadarnhaol iawn, ac roedd y wybodaeth yn cael ei hystyried yn fanwl drwy'r Grwpiau Rheoli Lleol, a ddisgrifir yn adran Llywodraethu'r adroddiad. Fodd bynnag, nododd y staff na ellir newid llawer o'r problemau cyffredin a godwyd, megis y ffaith nad oes toiledau ar y faniau sgrinio symudol, a bod prinder lleoedd parcio. Hefyd, roedd y nifer gwirioneddol o arolygon a gwblhawyd yn isel iawn, tua 20 y mis ar gyfer yr apwyntiad sgrinio cychwynnol a 5 y mis ar gyfer y clinig asesu. Pan wnaethom siarad â'r staff dywedwyd bod yr arolygon yn ddewisol ac nad oeddent yn cael eu hyrwyddo'n ormodol. Mae hyn er mwyn cydnabod y ffaith bod llawer o'r menywod yn ofidus ac am adael yn syth ar ôl yr apwyntiad, yn hytrach nag aros a chwblhau ffurflen adborth. Efallai yr hoffai'r gwasanaeth ystyried fformatau amgen ar gyfer yr arolygon, megis rhai ar-lein, er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch ac o bosibl gynyddu nifer yr ymatebion.

O'r data a welsom, nodwyd bod nifer y pryderon a'r cwynion ffurfiol a wnaed gan fenywod i Iechyd Cyhoeddus Cymru am Bron Brawf Cymru yn isel iawn¹⁶. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod unrhyw sylwadau neu bryderon anffurfiol a wnaed i'r gwasanaeth yn isel unwaith eto a rhoddwyd sicrwydd inni fod y rhain yn cael eu datrys drwy strwythur rheoli rhaglen a rheoli canolfan leol briodol.

¹² Galluedd fel y'i diffinnir gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005

¹³ Mae'r safonau yn helpu i sicrhau eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

¹⁴ Mae logo iaith Gwaith yn ffordd i staff a sefydliadau ddangos

¹⁵ <https://www.languageine.com/uk>

¹⁶ Gweithio i Wella, data 2018/2019 ar gyfer Bron Brawf Cymru: Cafwyd pryder neu gŵyn yn achos 0.01% (17) o'r menywod a gafodd eu sgrinio.

Trefniadau'r Gweithlu

Roedd ethos tîm cryf iawn ymhlith y staff ac mae morâl yn uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, mae swyddi gwag mewn grwpiau hanfodol o staff yn rhoi pwysau ychwanegol ar rai aelodau o staff. Yn y gorllewin a'r de-ddwyrain mae'r pwysau ar y gweithlu fwyaf amlwg, lle mae prinder staff meddygol i redeg clinigau asesu a phrinder radiograffwyr i gynnal mamogramau sgrinio cychwynol. Mae trefniadau hirsefydledig ar waith i rannu staff rhwng y ddau ranbarth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cyflwynwyd proses newydd yn ddiweddar yn y gogledd i gwblhau cyfran o'r gwaith o ddarllen delweddau ar gyfer y gorllewin, sydd wedi arwain at wella amseroldeb gofal yn sylweddol. Fodd bynnag, nid oes cynllun hirdymor ar gyfer y gweithlu ar waith er mwyn sicrhau cadernid a sicrwydd y gweithlu at y dyfodol, ac ar y cyfan ystyrir bod y gwasanaeth yn un rhanbarthol yn hytrach nag yn un cenedlaethol.

Dylai'r menywod sy'n defnyddio gwasanaethau sgrinio'r fron yng Nghymru ddisgwyl cael gofal amserol ac effeithiol, a ategir ac a ddarperir gan weithlu cynaliadwy, sydd wedi'i hyfforddi, ac sydd â digon o adnoddau. Disgwylir i'r arweinwyr a'r rheolwyr sicrhau, lle y wynebier heriau o ran y gweithlu, yr ymdrinnir â nhw drwy gynlluniau a champau gweithredu cadarn er mwyn sicrhau nad oes effaith negyddol ar y menywod, y lleddfir y pwysau ar y gweithlu presennol ac y diogelir y gwasanaeth at y dyfodol.

Strwythur y Gwasanaeth

Yn ystod ein gwaith maes roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig iawn i ddarparu profiad da a gwasanaeth amserol i fenywod. Fodd bynnag, cododd staff rai pryderon gyda ni am recriwtio a chadw. Crynhoir barn gyffredinol y staff yn y tair canolfan fel a ganlyn:

- **Y gogledd** – Roedd digon o staff ar gael i ddarparu gwasanaeth amserol i fenywod. Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod capasiti'r gweithlu presennol ar eu lefel orau ers sawl blwyddyn, a oedd yn cynnwys penodi Radiolegydd newydd yn ddiweddar.
- **Y de-ddwyrain** – Ar hyn o bryd mae nifer digonol o staff ar y cyfan, ond roedd pryderon sylweddol am y ffaith bod nifer o'r staff meddygol ar fin ymddeol, gyda rhai ohonynt yn gweithio ar sail ymddeol a dychwelyd. Codwyd pryderon penodol hefyd am y ffaith nad oedd digon o radiograffwyr i weithio ar y faniau sgrinio, a hynny am fod radiograffwyr yn cael hyfforddiant arbenigol i weithio yn y clinigau asesu, ac mae prin y bu'r ôl-lenwi.

- **Y gorllewin** – Due to the very small numbers of medical O ganlyniad i'r niferoedd bach iawn o staff meddygol yn y ganolfan roedd y gwasanaeth yn fregus iawn, ac roedd y sefyllfa hon yn un hirdymor am nad oedd modd recriwtio staff meddygol. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd staff a dull o ddarllen delweddau rhwng canolfannau yn helpu i liniaru'r oedi.

Ar y cyfan, yn ein harolwg staff, roedd 59 y cant o'r staff o'r farn bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Fodd bynnag, ar lefel ranbarthol, canlyniadau'r cwestiwn hwn oedd 77 y cant o'r staff yn y gogledd, 43 y cant yn y gorllewin a dim ond 33 y cant yn y de-ddwyrain. Gwnaeth llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw godi pryderon am sut y gellir darparu'r gwasanaeth yn yr hirdymor, gyda rhai o'r staff yn nodi bod y sefyllfa bresennol yn un argyfyngus o ran y gweithlu.

Problem allweddol a nodwyd oedd prinder radiolegwyr yng Nghymru a'r DU. Hefyd, yn gysylltiedig â hyn, nodwyd bod llai o gapasiti o ran radiolegwyr, gan fod gan bob un ohonynt gontractau rhanedig â'r bwrdd iechyd i weithio ar ochr symptomatig a sgrinio'r gwasanaeth. Dywedodd staff o'r gorllewin a'r de-ddwyrain wrthym, dros y blynyddoedd diwethaf, y bu sawl ymgais i benodi cydradiolegydd gyda'r priod fyrddau iechyd lleol, ond ni lwyddwyd i wneud hyn am nad oedd llawer o ymgeiswyr ac nad oeddent yn addas.

Dangosodd canlyniadau ein harolwg staff wahaniaeth sylweddol rhwng rhanbarthau o ran teimladau'r staff am gapasiti'r gweithlu, a wnaeth adlewyrchu'r hyn a ddywedodd y staff wrthym yn ystod y gwaith maes. Yn ein harolwg, roedd 92 y cant o'r staff o'r gogledd o'r farn bod digon o staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ond roedd hyn yn sylweddol is, sef 53 y cant, yn y de-ddwyrain a'r gorllewin. Yn yr un modd, roedd 92 y cant o'r staff o'r gogledd o'r farn bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau presennol yn ddigonol, o gymharu â dim ond 47 y cant yn y de-ddwyrain a'r gorllewin. Hefyd, roedd 92 y cant o'r staff yn y gorllewin a 30 y cant o'r staff yn y de-ddwyrain o'r farn nad oedd lefelau staffio yn ddigonol i fodloni gofynion delweddu ac adrodd yn y ganolfan.

Dywedodd nifer o'r staff, yn y gorllewin yn bennaf, fod prinder staff yn effeithio ar y broses delweddu ac adrodd, a all beri oedi wrth roi canlyniadau i fenywod am nad oes digon o staff ar gael i ddarllen delweddu.

"Mae swyddi a fu'n wag ers deg mlynedd o leiaf, clinigwyr yn gadael a phobl yn ymddeol wedi cael effaith ar y broses ddarllen. Nid oes digon o radiolegwyr ar gael, gyda'r cydbwysedd cywir rhwng ymarferwyr a radiolegwyr."

"Dim ond un radiolegydd sydd yn Abertawe, sy'n gweithio'n rhan-amser gyda ni. Er bod Caerdydd a'r gogledd yn ein helpu ar hyn o bryd i adrodd, byddai'n wych petai'r ganolfan yn cael un neu ddau radiolegydd arall i gefnogi clinigau hefyd."

"Nifer annigonol o ddarllenwyr delweddu - dim hyblygrwydd yn y system ar gyfer gwyliau ac ati.... Prinder radiolegwyr ymgynghorol - yn enwedig gan y bydd rhai yn ymddeol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf."

Barn y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

"Mae prinder staff yn golygu y gall fod yn anodd iawn rhedeg clinigau."

"Mae'r prinder hwn wedi arwain at lai o staff yn y lleoliad clinigol a mwy o lwyth gwaith a straen ymhlith cydweithwyr."

"Gall morâl ddioddef pan na fydd digon o staff am gyfnod hir..."

"Mae prinder staff yn aml...ond mae'r staff dan bwysau i gadw'r gwasanaeth i fynd doed a ddelo."

Barn staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

Yn ystod ein gwaith maes, thema gyffredin iawn a ddaeth i'r amlwg ymhlith uwch-aelodau o'r staff a staff meddygol oedd yr anallu i recriwtio Clinigwyr y Fron. Ystyrir bod y rheswm dros hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â rhoi'r gorau i raddfeydd cyflog Arbenigwyr ac Arbenigwyr Cyswllt (SAS) yng Nghymru. Mewn rhannau eraill o'r DU, megis Lloegr, mae'r raddfa cyflog hon yn dal i fod yn opsiwn fel ffordd o negodi cyflogau ar gyfer sefydliadau gofal iechyd. O ganlyniad, ni all y gwasanaeth yng Nghymru fodloni disgwyliadau cyflog ac, felly, mae clinigwyr SAS yn dewis gweithio rywle arall, am fod galw amdanynt. Dywedodd y staff wrthym fod rolau Clinigwyr y Fron yn rhai hynod brofiadol a gwerthfawr, ac y gallant helpu i ddarparu gwasanaeth amserol i fenywod yn uniongyrchol drwy ddarparu capasiti ychwanegol i redeg canolfannau asesu.



Roedd yn glir yn ystod y gwaith maes a thrwy sylwadau yn yr arolwg staff fod cydweithwyr ar bob lefel o'r gwasanaeth yn cydweithio'n dda i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol i fenywod. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym hefyd y gall yr heriau o ran y gweithlu arwain at bwysau a straen ychwanegol a chael effaith andwyol ar lesiant y staff.

Cyflafareddu a Chonsensws

Fel y nodwyd yn flaenorol, pan nodir abnormalrwydd yn narlleniad cyntaf neu ail ddarlleniad mamogram, caiff trydydd darlleniad ei gwblhau bob amser er mwyn gweld a ddylai menyw gael ei hailalw i glinig asesu. Gall y trydydd darlleniad gael ei wneud drwy broses gyflafareddu neu gonsensws, ac mae'r broses hon hefyd yn amrywio rhwng y canolfannau sgrinio rhanbarthol:

- **Consensws** – Bydd grŵp o ddarllenwyr delweddau yn dod ynghyd i adolygu'r darlleniadau mamogram er mwyn dod i benderfyniad ar y cyd. Gwneir hyn yn y gogledd.
- **Cyflafareddu** – Bydd unigolyn, radiolegydd fel arfer, yn gwneud darlleniad terfynol. Gwneir hyn yn y gorllewin a'r de-ddwyrain.

Gall anawsterau o ran y gweithlu effeithio ar y ddau opsiwn hwn. Gall fod yn anodd dilyn y trywydd consensws pan fo lefelau staff cyfyngedig, a gall prinder radiolegwyr i wneud penderfyniad terfynol effeithio ar gyflafareddu. Er gwaethaf hyn, roedd canlyniadau'r arolwg staff yn gadarnhaol, gydag 86 y cant yn cytuno bod y broses o ddehongli delweddau, gan gynnwys adrodd ddwywaith a chyflafareddu, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn ystod ein gwaith maes nodwyd gennym, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fod cryn dipyn o'r gwaith cyflafareddu o ganolfan Abertawe wedi digwydd yng Nghaerdydd, er mwyn darparu cymorth a chapasiti ychwanegol am fod prinder staff meddygol yn Abertawe.

Er bod consensws a chyflafareddu yn ddulliau dilys ill dau o gwblhau'r trydydd darlleniad, nodwyd bod y staff o'r farn gyffredinol mai consensws oedd yn cael ei ffafrio ac y gall fod yn fwy effeithiol. Y rheswm dros hyn yw y gall arwain at gyfradd ailalw is i fenywod oherwydd y gwneir penderfyniadau ar y cyd ac y rhennir dysgu, ac mae hefyd yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau cydlyniant tîm a datblygiad parhaus staff. Roedd rhai aelodau o'r staff o'r farn y byddai'n fuddiol defnyddio consensws ym mhob rhanbarth oherwydd gall llai o fenywod gael eu hailalw ac felly gall llai o fenywod orfod gofidio'n ddiangen. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso hyn, mae angen sicrhau bod digon o staff ac felly nid yw'n ymarferol ym mhob rhanbarth.

Ymateb i'r Heriau o ran y Gweithlu

Yn ystod ein gwaith maes nodwyd bod staff rheoli a staff gweithredol yn ymwybodol iawn o'r problemau'n ymwneud â'r gweithlu, ac adlewyrchwyd hyn yn yr arolwg staff, lle roedd 90 y cant o'r staff o'r farn bod eu rheolwyr yn ymwybodol o'r heriau presennol o ran darparu gwasanaeth. Roedd yn gadarnhaol nodi, ar y cyfan, i 85 y cant o'r staff yn yr arolwg ddweud bod eu rheolwyr yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau, ond nid oedd 33 y cant o'r staff yng nghanolfan Caerdydd yn cytuno â'r datganiad hwn.

Uwch Ymarfer

Nodwyd bod y gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu yn unol ag ymarfer cyfredol gan ddefnyddio model pedair haen o staff. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr cynorthwyol band pedwar sy'n cynnal mamogramau dan oruchwyliaeth radiograffydd cofrestredig, a datblygu uwch ymarfer y radiograffwyr. Mae'r uwch ymarfer yn golygu datblygu radiograffwyr band chwech i ddod yn uwch ymarferwyr band saith, sy'n gwneud hyfforddiant ychwanegol sy'n cynnwys dehongli delweddau a chynnal biopsi ac uwchsain. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflogi radiograffwyr ymgynghorol, sy'n gyfle datblygu posibl yn dilyn yr hyfforddiant priodol, ar gyfer uwch ymarferwyr band saith. Gall y radiograffwyr ymgynghorol archwilio cleifion, darparu diagnosis ac arwain clinigau asesu.

Yn ystod ein cyfweiliadau roedd consensws cyffredinol ymhlith y staff meddygol a'r uwch-reolwyr y dylai fod economi gymysg o staff. Rhesymeg hyn oedd cydbwysio sgiliau'r staff meddygol, ochr yn ochr â radiograffwyr ymgynghorol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y bu nerfusrwydd yn hanesyddol ymhlith rhai o'r staff meddygol ynghylch symud tuag at fwy o radiograffwyr ymgynghorol yn rhedeg clinigau asesu. Y prif reswm dros hyn oedd y ffaith y gallai fod angen i'r radiograffwyr ymgynghorol gael rhywfaint o gyngor a chymorth o hyd gan y staff meddygol.

Nododd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym mai un o brif gryfderau'r gwasanaeth oedd datblygiad parhaus uwch ymarfer. Disgrifiodd y radiograffwyr ymgyrch benodol dros y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo uwch ymarfer, a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cryn gefnogaeth ac anogaeth i gyflawni'r hyfforddiant ychwanegol roedd ei angen. Fodd bynnag, nodwyd bod datblygiad parhaus radiograffwyr band chwech i ddod yn uwch ymarferwyr band saith wedi gadael gwagle yn y band hwn nad oedd wedi'i ôl-lenwi. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y radiograffwyr band chwech a oedd yn weddill a'r ymarferwyr cynorthwyol. Yng nghanolfan Caerdydd roedd y broblem hon i'w gweld fwyaf.

Ar y cyfan, dywedodd 88 y cant o'r ymatebwyr yn yr arolwg staff mai'r model staffio a ddefnyddir ar gyfer y broses sgrinio gychwynnol yw'r defnydd gorau o amser ar gyfer pob gradd o staff. Hefyd, roedd yn gadarnhaol nodi, yn ystod ein gwaith maes, i lawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ym mhob canolfan ganmol gallu a gwaith yr ymarferwyr cynorthwyol. Nodwyd na all unigolion yn y rolau hyn ddatblygu ymhellach na rôl band pedwar oherwydd cwmplas yr ymarfer, y cymhwyster sydd ei angen ar radiograffwyr a'r angen i gofrestru â Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal, fel y mae'r Gymdeithas Radiograffwyr yn ei gynghori. Noda'r fframwaith hwn na all ymarferydd cynorthwyol weithio ar fan sgrinio nac mewn canolfan heb gael ei oruchwyllo gan radiograffydd cofrestredig.

Darllen rhwng Canolfannau

Yn dilyn trafodaethau â'r staff, nodwyd eu bod o'r farn gyffredinol y bu cydweithio effeithiol rhwng Canolfannau Abertawe a Chaerdydd ers dwy flynedd o leiaf. Dywedodd rhai o'r staff wrthym eu bod yn teimlo bod y ddwy ganolfan yn dod yn un brif ganolfan yn araf bach, gan fod y grwpiau o staff yn cael eu rhannu. Mae'r broses hon yn golygu rhannu grwpiau o staff ac mae wedi gweld staff meddygol yng nghanolfan Caerdydd yn cefnogi'r broses gyflafareddu, a hefyd ar adegau yn cynnal clinigau asesu yn Abertawe. Hefyd gwelsom fod Uwch Ymarferwyr band saith o Abertawe yn helpu gyda darlleniadau cyntaf Canolfan Caerdydd. Nodwyd gennym hefyd fod y Rheolwr Radiograffeg yn Abertawe wedi bod yn camu i'r adwy ac yn rheoli staff radiograffeg y ddau safle oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yng Nghaerdydd.

Yn ystod ein gwaith maes, roedd yn gadarnhaol iawn nodi bod menter wedi cael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2020 i ganolfan Llandudno ddarparu cymorth darllen i Ganolfan Abertawe. Fel rhan o hyn byddai canolfan Llandudno yn cymryd cyfran fawr o'r darlleniadau ar ran Abertawe, a oedd yn cynnwys pedwar neu bum diwrnod o sgrinio gyda thua 250 o setiau o ddelweddau bob wythnos. Roedd y broses yn cynnwys anfon delweddau o Abertawe i Landudno drwy'r System Archifo Lluniau a Chyfathrebu, a reolir yn ganolog. Staff yng nghanolfan Llandudno fyddai'n mynd ati i gwblhau'r broses o wneud darlleniadau cyntaf, ail darlleniadau a thrydydd darlleniadau, os oedd angen hynny, drwy gonsensws. Cawsom y ffigurau diweddaraf yn ystod ein gwaith maes, a ddangosodd, ym mis Chwefror 2020, i bob menyw o ganolfan Abertawe a gafodd ei gwahodd i glinig asesu gael ei gwahodd o fewn y safon genedlaethol o dair wythnos.

Pan wnaethom siarad â'r staff am y broses newydd, roeddent yn gadarnhaol ar y cyfan ac o'r farn ei bod yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, cafwyd barn gymysg ymhlith staff canolfannau Llandudno ac Abertawe ynghylch p'un a oedd yn ateb byrdymor neu'n drefniant hirdymor. Felly, mae angen egluro hyn fel rhan o strategaeth y gweithlu.

Hefyd cawsom sylwadau cymysg gan y staff pan wnaethom ofyn a oeddent o'r farn bod Bron Brawf Cymru yn gweithredu fel gwasanaeth cenedlaethol neu ranbarthol. Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn, gan nodi mai gweithio rhwng canolfannau oedd yr unig ffordd o sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Awgrymodd rhai o'r staff hyd yn oed mai'r sefyllfa ddelfrydol o bosibl fyddai datblygu uwch ganolfan ranbarthol rhwng Caerdydd ac Abertawe. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai o'r staff o fewn y gwasanaeth yn hoff iawn o fodel rhanbarthol sy'n cynnwys y gogledd, y de-ddwyrain a'r gorllewin. Gwelsom hyn yn ystod ein cyfweiliadau lle dywedodd rhai o'r staff wrthym ei bod yn teimlo fel 'ni a nhw' rhwng canolfannau. Hefyd nodwyd, er y gallai model cenedlaethol fod o fudd cyffredinol o ran amseroldeb, ei fod hefyd yn gwanhau'r atebolrwydd lleol a'r ymdeimlad o berchenogaeth mewn rhanbarth, ac y gallai fod yn anodd nodi pwy yn union sydd wedi dylanwadu ar ganlyniad y fenyw.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Nodi'n gadarn beth yw'r trefniant newydd o ran rhannu'r gwaith darllen rhwng Canolfan Abertawe a chanolfan Llandudno, gan gynnwys am ba hyd y bydd y trefniant ar waith.

Edrych ar y materion a godwyd o ran yr ymdeimlad ymhlith rhai o'r staff fod rhanad rhwng rhanbarthau.



Cynllun y Gweithlu

Nid oedd unrhyw gynllun cyfredol ar gyfer y gweithlu ar waith, ond roedd y gwaith o greu un wedi dechrau. Cymysg oedd barn y staff y gwnaethom siarad â nhw am hyn, gyda rhai yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o gynllun hirdymor, ac eraill yn cydnabod y gwnaed rhywfaint o waith. Hefyd, dywedodd sawl aelod o'r staff wrthym eu bod yn teimlo bod y ffocws ar reoli argyfwng yn y byrdymor o ran swyddi gwag er mwyn cadw'r gwasanaeth i fynd, yn hytrach nag ystyried y ffordd o ddarparu'r gwasanaeth yn y tymor hwy.

Yn ystod ein gwaith maes cawsom gopi o ddrafft cyntaf cynllun newydd ar gyfer y gweithlu. Roedd yn diweddarar cynllun blaenorol a oedd yn hen bellach, a oedd yn amlinellu'r dull gweithredu a'r risgiau. Dywedwyd wrthym y byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yna'n cael ei gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen a'r Uwch-dîm Rheoli Is-adrannol i'w adolygu a'i gymeradwyo. Gan mai drafft oedd cynllun y gweithlu nid oedd modd inni ei ystyried yn llawn. Fodd bynnag, gwelsom ei fod yn tanlinellu'n benodol y pwynt sylfaenol ynghylch prinder staff i redeg clinigau asesu, er mwyn cyrraedd y safon genedlaethol o dair wythnos ar gyfer ailalw menywod i'w hasesu. Hefyd, nododd y drafft yn benodol fod y ffaith nad ôl-lenwyd radiograffwyr band chwech yn peri risg i'r gwasanaeth. Roedd yn gadarnhaol bod cynllun drafft y gweithlu yn tynnu sylw at y broses o adrodd mamogramau rhwng safleoedd fel gofyniad allweddol wrth ddarparu'r gwasanaeth.


Pan wnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am ddull gweithredu strategol hirdymor y gwasanaeth, gwnaethom ddysgu bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Grŵp Gweithredol Cydweithredol Iechyd GIG Cymru¹⁷ ym mis Mai 2019. Adeiladodd yr adroddiad ar waith a wnaed yn 2013 drwy Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddau¹⁸ er mwyn datblygu opsiynau mewn ymateb i'r heriau a wynebwyd gan y gweithlu radioleg ym maes sgrinio'r fron. Nododd yr adroddiad y byddai'r cyfuniad o ymddeoliadau a llai o radiolegwyr yn bygwth y gallu i ddarparu gwasanaeth amserol i fenywod o fewn gwasanaethau'r fron byrddau iechyd a'r gwasanaeth sgrinio cenedlaethol. Yr argymhelliad arfaethedig oedd model gwasanaeth integredig a gyflwynir yn rhanbarthol ar draws y byrddau iechyd. Cawsom wybod bod Rheolwr Rhaglen wedi'i benodi gan Grŵp Gweithredol Cydweithredol Iechyd GIG Cymru i bennu cwmpas y gwaith hwn.

Rydym o'r farn bod yn rhaid llunio cynllun clir ar gyfer y gweithlu ar fyrder, yn enwedig o ystyried bod problemau o ran y gweithlu radioleg wedi cael eu hystyried yn 2013. Mae hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau posibl o'r gwaith cwmpasu a wneir drwy Grŵp Gweithredol Cydweithredol Iechyd GIG Cymru.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Datblygu a gweithredu cynllun y gweithlu er mwyn amlinellu'r nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer ymdrin â'r problemau sy'n wynebu'r gweithlu er mwyn darparu gwasanaeth amserol. Dylid ei rannu â staff ar bob lefel o'r gwasanaeth er mwyn casglu eu barn a chael eu mewnbwn.



¹⁷ <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/crynodeb-or-cydweithrediad/>

¹⁸ Cafodd Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddau ei greu yn 2010 fel prif ffynhonnell cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfer cynllunio gwasanaethau radioleg diagnostig yng Nghymru.

Hyfforddi a Datblygu

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i hyfforddi a datblygu yn ein harolwg staff yn gadarnhaol. Roedd 86 y cant o'r staff yn cytuno eu bod yn gallu cael hyfforddiant a datblygiad, ac roedd 92 y cant o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr i gwblhau'r hyfforddiant i'w cefnogi yn eu rôl. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon gan staff yn y gogledd a ddywedodd wrthym fod lle i wella argaeledd hyfforddiant yn y rhanbarth a mynediad iddo.

"Mae'n anodd cael hyfforddiant am nad oes digon o gyrsiau ar gael yn y gogledd. Nid wyf yn teimlo bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r gogledd o ran cyfleoedd datblygu ac ati."

"Er eu bod ar gael, nid oes cymaint o gyfleoedd hyfforddi yn y gogledd o gymharu â'r cyfleoedd hyfforddi/datblygu sydd i'r staff sy'n gweithio yn y de-ddwyrain, a chaiff digwyddiadau eu canslo'n aml."

"Byddai modd cynnig llawer o hyfforddiant ar-lein neu drwy Skype. Mae'n ymddangos ein bod yn colli allan ar lawer o gyfleoedd yn y gogledd am nad ydynt yn ein cyrraedd mae'n ymddangos."

Barn staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

Er gwaethaf y ganran uchel o sylwadau cadarnhaol yn ein harolwg staff, dywedodd nifer o'r staff wrthym fod prinder staff yn effeithio ar anghenion hyfforddi a datblygu. Er enghraifft, rhoi'r amser i'r staff gael hyfforddiant, prinder staff cyflenwi ac, ar adegau, dasgau gwaith yn gorfod cael blaenoriaeth dros anghenion hyfforddi.

Dywedodd rhai o'r staff, yn enwedig ymarferwyr cynorthwyol, eu bod yn teimlo bod bwlch o ran hyfforddi a datblygu i gefnogi eu cynnydd. Mae hyn yn anodd o ystyried cwmpas yr ymarfer a argymhellir gan Gymdeithas y Radiograffwyr¹⁹, ond gallai'r gwasanaeth ystyried pa hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ychwanegol y mae'r grŵp hwn o staff yn teimlo bod eu hangen arno, a sut y byddai hyn yn galluogi'r staff i ddatblygu ymhellach.

Hefyd, gwnaethom nodi nad oes strategaeth ar waith ar hyn o bryd ar gyfer addysgu a hyfforddi, ac roedd rhai o'r staff o'r farn nad oedd hyn yn cael ei ystyried mewn ffordd strategol gyfannol ledled Cymru. Fodd bynnag, rhwng timau cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng rheolwyr hyfforddi, a chaiff sgiliau mwy meddal sy'n canolbwyntio ar y claf eu diweddarau drwy hyfforddiant diweddarau clinigol. Roedd yn gadarnhaol nodi, o fewn yr hyfforddiant mamogram clinigol cychwynol, fod ffocws clir ar drugaredd clinigol, a all helpu i gefnogi menywod sy'n llawn gofid.

Dywedodd y staff wrthym nad yw myfyrwyr israddedig yng Nghymru sydd wrthi'n dilyn eu gradd radiograffeg yn cynnwys Bron Brawf Cymru fel rhan o'u hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod cysylltiadau cadarn â phrifysgolion Cymru, ac roedd y gwasanaeth wedi gwneud cyflwyniad diweddar i fyfyrwyr radiograffeg yn eu trydedd blwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, a gafodd ei groesawu'n fawr ac a wnaeth greu diddordeb yn y gwasanaeth.


Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Ystyried cyfleoedd i sicrhau bod digon o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r staff yn y gogledd a'r gwasanaeth ehangach.

Ystyried cyfleoedd i sefydlu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol i ymarferwyr cynorthwyol.

Datblygu strategaeth ar gyfer addysgu a hyfforddi sy'n ystyried pob rôl ym mhob un o'r rhanbarthau daearyddol.



¹⁹ <https://www.sor.org/learning/document-library/code-conduct-and-ethics/1-scope-professional-practice>

Rhaglen Cymrodorion Byd-eang Coleg Brenhinol y Radiolegwyr

Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn ystyried bod yn rhan o'r Rhaglen Cymrodorion Byd-eang ar gyfer radioleg clinigol, sy'n ddatblygiad ar y cyd rhwng y GIG, Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Apollo Radiology International ac Ysbytai Athrofaol Morecambe Bay²⁰. Gallai penodi Radiolegwyr Byd-eang helpu i gynyddu capasiti o fewn gwasanaethau, megis Bron Brawf Cymru.

Byddai'r rhaglen yn recriwtio radiolegwyr cymwys i weithio yn y GIG ar sail 'ennill, dysgu, dychwelyd' am dair blynedd, er mwyn datblygu diddordeb arbenigol wrth wneud gwaith gwasanaeth. Fodd bynnag, nododd rhai o'r staff meddygol y gwnaethom siarad â nhw y risg y gallai hyn leihau cyfleoedd i hyfforddeion lleol ymuno â'r gwasanaeth, am nad oedd digon o adnoddau i recriwtio a hyfforddi.

Deallusrwydd Artiffisial


Roedd y gwasanaeth ar gamau cynnar ystyried technolegau newydd ar gyfer sgrinio Deallusrwydd Artiffisial (AI), ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig iawn ynghylch dyfodol AI o ran sgrinio'r fron. O ystyried y cyfuniad o broblemau o ran y gweithlu a'r galw cynyddol

am wasanaethau sgrinio, gall technoleg newydd fod mewn sefyllfa dda i leddfu'r pwysau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw AI yn gallu cymryd lle staff, ond ei fod yn hytrach yn adnodd i'w ddefnyddio ochr yn ochr â thimau. Er y gall AI fod yn weledigaeth yn yr hirdymor, ni all ddatrys unrhyw broblemau byrdymor i dymor canolig o ran y gweithlu sy'n wynebu'r gwasanaeth

Cymhellion Recriwtio

Yn ystod ein gwaith maes, gwnaethom ofyn a yw'r gwasanaeth wedi ystyried defnyddio taliadau cymell croeso euraid²¹ ar gyfer y swyddi gwag meddygol, er mwyn gwneud y rolau'n fwy deniadol a helpu i ddenu staff newydd. Nid oedd hyn wedi cael ei ystyried, ac nid oedd yn rhywbeth y byddai'r gwasanaeth yn debygol o'i ystyried, am fod risg na chawsai'r ymgeisydd mwyaf priodol ei recriwtio, a'r anghydraddoldeb o ran cyflog a allai ddeillio o hynny gyda'r staff meddygol presennol.

Mae hyn wedi cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r DU mewn sectorau eraill lle mae'n her i recriwtio arbenigwyr meddygol, er enghraifft, ym maes Patholeg, ac mae wedi'i groesawu'n fawr. O ystyried natur gritigol y sefyllfa o ran staff meddygol yn Bron Brawf Cymru, mae hyn yn rhywbeth y dylai'r gwasanaeth ei ailystyried efallai.



²⁰ <https://www.rcr.ac.uk/clinical-radiology/being-consultant/working-uk/global-radiologists-earn-learn-and-return-scheme>

²¹ Cyfandaliad er mwyn helpu i ddenu staff newydd i'r gwasanaeth.

Prosesau a Gweithdrefnau Gweinyddol

Roedd y gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ac roedd amrywiaeth o brosesau a gweithdrefnau gweinyddol manwl yn sail iddo. Mae rheolaethau mewnol cadarn ar waith i leihau unrhyw wallau ac mae'r staff yn hyderus iawn am y trefniadau hyn, er y gall fod cyfle i symleiddio'r rheolaethau mewnol ymhellach er mwyn lleihau'r baich ar y timau gweinyddol. Mae'r prosesau a'r gweithdrefnau manwl yn amrywio rhwng y rhanbarthau daearyddol, ac er bod modd cyfiawnhau hyn mewn rhai achosion, mae mantais bosibl i safoni'r rhain lle y bo modd. Rhaid i'r gwasanaeth hefyd sicrhau bod ffordd fwy cyson a systematig o gofnodi a rhannu newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau.

Mae prosesau gweinyddol cadarn yn hanfodol bwysig i sicrhau bod y llwybr sgrinio yn hyrwyddo profiad o ansawdd i fenywod, wrth hefyd sicrhau gofal diogel, effeithiol ac amserol. Dylai'r prosesau gael eu dogfennu'n glir a bod yn addas at y diben, gydag adolygiadau rheolaidd ar waith i sicrhau y dilynir arferion gorau. Lle y nodir materion o ran darparu gwasanaethau neu lle na chaiff safonau eu cyrraedd, rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei brosesau yn addasu i ddiwallu anghenion y menywod sy'n cael eu sgrinio.

Apwyntiadau Sgrinio Cychwynnol a Chlinigau Asesu

Yn ein harolwg staff, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn ar gyfer cwestiynau am y prosesau a'r gweithdrefnau oedd ar waith ar gyfer apwyntiadau mamogram cychwynnol a chlinigau asesu. Ar gyfer yr apwyntiad sgrinio cychwynnol, roedd 94 y cant o'r staff o'r farn ei fod wedi'i ddylunio'n dda a'i fod yn effeithlon, ac roedd 96 y cant o'r farn bod digon o apwyntiadau ar gael i fenywod. Ar gyfer y clinig asesu, roedd 98 y cant o'r staff o'r farn ei fod wedi'i ddylunio'n dda a'i fod yn effeithlon, ac roedd 97 y cant o'r farn bod digon o apwyntiadau ar gael i fenywod.

Roedd y gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ac wedi'i ategu gan lawer o dasgau â llaw ac sy'n seiliedig ar brosesau. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio peiriannau pecynnu amlenni i anfon llythyrau, a ffurflenni papur i olrhain a monitro menywod wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth, ynghyd â defnyddio System Sgrinio'r Fron Genedlaethol i gofnodi canlyniadau apwyntiadau.

Y prif dimau oedd yn gyfrifol am waith gweinyddol oedd Swyddfa Sgrinio'r Fron a'r Ysgrifenyddion Meddygol. Rhannwyd y prif dasgau ym mhob canolfan gyda Swyddfa Sgrinio'r Fron yn anfon y gwahoddiadau sgrinio cychwynnol

a'r llythyrau am ganlyniadau normal. Yr Ysgrifenyddion Meddygol oedd yn rheoli proses y clinigau asesu o drefnu apwyntiadau, anfon llythyrau a rheoli'r holl ohebiaeth gysylltiedig lle y caiff menywod eu hatgyfeirio at y bwrdd iechyd am driniaeth. Roedd y ddau dîm yn cydweithio'n dda ac roedd cydberthnasau gwaith da iawn rhwng yr holl grwpiau o staff ym mhob un o'r tair canolfan yr ymwelwyd â nhw.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod yr effaith ar ofidiau'r menywod yn cael ei hystyried yn glir yn yr amserlenni a oedd ar waith ar gyfer anfon llythyrau. Cawsai'r llythyr gwahoddiad sgrinio cychwynnol ei anfon dair wythnos cyn yr apwyntiad, a dim ond wythnos ymlaen llaw yr anfonwyd llythyr gwahoddiad y clinig asesu. Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros ei anfon wythnos ymlaen llaw oedd er mwyn taro cydbwysedd rhwng cael digon o rybudd i ddod i'r apwyntiad a gorfod aros amser hir a allai beri mwy o boen meddwl.

Gwnaethom siarad â'r staff am y broses lle bydd menyw am newid ei hapwyntiad. Nodwyd, er na chefnogwyd gwneud hyn, ei fod weithiau yn arwain at fenywod yn cyrraedd apwyntiad ar y dyddiad a'r amser anghywir. Cawsom wybod, weithiau pan fydd menywod yn poeni'n arw y byddant yn

ffonio'r ganolfan sgrinio i geisio gohirio eu hapwyntiad, a phan fydd hyn yn digwydd nod y staff yw ceisio lleddfu pryderon y fenyw, a byddant yn llwyddo yn aml i ddarbwylllo'r fenyw i gadw ei hapwyntiad gwreiddiol.

Fodd bynnag, cawsom wybod gan rai o'r staff bod yna adegau pan fydd menywod yn cyrraedd ac yn nodi iddynt aildrefnu apwyntiad dros y ffôn, ac y bu dryswch rhwng yr hyn roeddent yn ei feddwl a'r hyn a gofnodwyd yn y ganolfan. Er nad yw hyn yn digwydd yn aml, dywedodd y staff wrthym y gall ychwanegu pwysau diangen oherwydd bydd y gwasanaeth yn ceisio gweld y fenyw ar y diwrnod hwnnw, yn hytrach na'i throi i ffwrdd. Nodwyd gennym, er y gofynnir i fenywod sy'n aildrefnu eu hapwyntiad a hoffent gael llythyr apwyntiad newydd, y bydd llawer yn gwrthod. Dylai Bron Brawf Cymru ystyried pa mor briodol ydyw i anfon llythyr apwyntiad newydd bob amser er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.

Yn ystod ein gwaith maes dywedodd rhai o'r staff wrthym y gallai'r broses o hysbysu menywod am eu hapwyntiad cychwynnol fod yn well drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg, megis negeseuon testun. Gall hyn helpu i gyfyngu ar nifer y menywod sy'n methu â chadw eu hapwyntiad neu sy'n cyrraedd ar y diwrnod anghywir, gan eu hatgoffa am eu llythyr gwreiddiol. Byddai hefyd yn helpu i leddfu'r baich weinyddol ar y staff.

"Gallem wneud yn well. Mae angen dull mwy modern o drefnu apwyntiadau gan ddefnyddio negeseuon testun y mae ein rhaglen yn ei ystyried gan fod hyn ychydig yn fwy cymhleth nag yn y Byrddau Iechyd."

"Gallai system i atgoffa menywod am eu hapwyntiad, fel neges destun, olygu na chaiff apwyntiadau eu colli. Gan fod yr apwyntiadau yn cael eu trefnu dair wythnos ymlaen llaw, mae pethau'n digwydd a gall yr apwyntiad fynd yn angof."

"Mae llawer o fenywod yn methu â throi i fyny - mae angen gwella'r dull cyfathrebu a'u hatgoffa am eu hapwyntiadau."

"Mae angen symud gyda'r oes a nodi dulliau i gleientiaid e-drefnu apwyntiadau, anfon negeseuon testun at gleientiaid a dibynnu'n llai ar bapur i drefnu apwyntiadau."

Barn staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Ystyried yr holl opsiynau i ddefnyddio technoleg ddigidol i wahodd menywod i apwyntiadau a'u hatgoffa am ddyddiadau ac amseroedd, sy'n cynnwys achosion o aildrefnu apwyntiadau.



Rheolaethau Mewnol

Roedd amrywiaeth o reolaethau mewnol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o wallau â phosibl, ac i sicrhau bod y canlyniad cywir yn cael ei anfon i'r fenyw gywir. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus iawn am y prosesau oedd ar waith, a oedd wedi profi'n hynod effeithiol a dibynadwy dros y blynyddoedd. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio sawl gwiriad drwy gydol y prosesau gweinyddol, a oedd yn cynnwys cyfres o fesurau i sicrhau y rhoddwyd cyfrif am bob menyw a oedd wedi cael apwyntiad mewn clinig sgrinio, a'i bod yn cael y canlyniad cywir. Roedd yn gadarnhaol gweld bod archwiliadau blynyddol o bob canolfan yn cael eu cynnal gan reolwr canolfan wahanol er mwyn nodi risgiau a phroblemau posibl, a oedd yn cynnwys archwiliad o'r mesurau oedd ar waith.

Dywedodd llawer o'r staff wrthym fod yr ystod gynhwysfawr o reolaethau mewnol wedi arwain at brosesau a gweithdrefnau gweinyddol a oedd yn llafur ddwys ac yn ailadroddus. Hefyd, roedd rhai o'r staff o'r farn, er bod y rheolaethau mewnol yn cael eu gwerthfawrogi, y gellid symleiddio'r prosesau er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n ystyried a ellir argraffu'r llythyrau yn allanol er mwyn creu capasiti ychwanegol i'r staff yn y timau gweinyddol.

Cawsom wybod y bydd menyw weithiau'n cysylltu â'r ganolfan lle cafodd darlleniad normal ond ei bod wedi cael canser yn y cyfnod o dair blynedd ar ôl ei hailalw fel mater o drefn. Mae hyn yn risg hysbys mewn rhaglen sgrinio tair blynedd. Dywedodd y staff wrthym, yn y sefyllfa hon, ar gyfer yr hyn a elwir yn ganser rhwng cyfnodau, y rhoddir gwybod i'r Radiolegydd Clinigol Arweiniol ym mhob canolfan. Bydd hyn yn arwain at adolygiad achos llawn er mwyn pennu a oedd yn achos o ganser rhwng cyfnodau gwirioneddol neu'n achos y bu bron iddo ddigwydd, a chaiff adroddiad manwl ei baratoi gan Bennaeth y Rhaglen.

Prosesau a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol

Roedd llawlyfr ansawdd cyffredinol ar waith sy'n nodi'r gweithdrefnau gweithredu lefel uchel ar draws y gwasanaeth, a oedd uwchlaw cyfres o brosesau a gweithdrefnau manwl iawn ar gyfer y timau gweinyddol. Roedd y gyfres o weithdrefnau yn cynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam canolfan-benodol ar gyfer yr holl brosesau gweinyddol allweddol.

Roedd yn gadarnhaol gweld llythyrau a thempledi safonol, a defnyddiwyd yr un amserlenni targed ym mhob rhanbarth er mwyn sicrhau bod lefel o gysondeb yn y safon gyfathrebu a gawsai menywod ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd llawer o'r prosesau a'r gweithdrefnau yn unigryw i bob canolfan.

Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd y ffaith bod trefniadau gweinyddol lleol wedi'u datblygu dros amser, ac roedd gan bob rhanbarth rolau meddygol penodol ar waith, er enghraifft, ar gyfer clinigau asesu yn y de-ddwyrain roedd tîm biopsi dynodedig â rolau penodol ar gyfer cymerwyr biopsi, ond yn y gogledd defnyddiwyd dull mwy cyffredinol.

Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gryf o'r farn, er bod gwahanol brosesau lleol yr un mor ddilys, y gall achosi peth dryswch i'r staff gweinyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y newid i fwy o ddarllen rhwng canolfannau lle mae gan wahanol ganolfannau brosesau ategol amrywiol.

Roedd y llawlyfr ansawdd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan grŵp a oedd yn cynnwys pennaeth y rhaglen a rheolwr canolfan arweiniol, ond barn gymysg oedd gan y staff am ba mor aml y dylai'r prosesau a'r gweithdrefnau ategol gael eu hadolygu. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw newidiadau i'r llawlyfr ansawdd neu'r gweithdrefnau ategol fel arfer yn cael eu cyfleu drwy reolwyr llinell a hynny drwy e-bost fel roedd angen gwneud y newidiadau. Gwnaethom fwrw golwg dros y llawlyfr ansawdd a'r gyfres o weithdrefnau ategol a gweld nad oedd fersiynau yn cael eu rheoli er mwyn cofnodi dyddiadau a manylion unrhyw newidiadau, neu pwy oedd wedi gweld y diweddariadau.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Ystyried rhinweddau'r gwahanol drefniadau lleol ar gyfer prosesau gweinyddol a safoni'r prosesau lle y bo modd.

Cyflwyno proses gyson a systematig o adolygu, diweddarau a rhannu newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau. Dylai hyn hefyd gynnwys rheoli fersiynau.



Llywodraethu

Ar y cyfan mae llinellau atebolrwydd clir ar draws y gwasanaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd o fewn y timau radioleg, ac mae prosesau da ar waith hefyd i adolygu perfformiad ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Fodd bynnag, mae amseroldeb trefnu clinigau asesu a'r oedi dilynol yn gwahodd menywod i apwyntiadau wedi bod yn broblem ers peth amser.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn bwysig i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac i nodi unrhyw faterion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg y mae angen gweithredu arnynt.

Atebolrwydd

Gwelsom fod llinellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd Bwrdd Rhaglen ar waith a oedd yn adrodd i gyfarwyddwr yr is-adran sgrinio. Roedd y Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am gynllunio rhaglen sgrinio'r fron, rheoli ei hagweddau gweithredol a'i chyflwyno. Gwnaethom edrych ar gylch gorchwyl y grŵp a nodi bod y cylch gwaith hefyd yn cynnwys yr adolygiad o berfformiad yn erbyn safonau ac yn nodi unrhyw gamau gofynnol. Roedd y Bwrdd yn cael ei gadeirio gan bennaeth y rhaglen ac yn cynnwys arweinwyr o bob un o'r arbenigeddau yn y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys y rheolwr busnes, a oedd yn bennaf cyfrifol am reoli'r holl ganolfannau sgrinio rhanbarthol. Dywedodd y staff a oedd yn mynychu'r Bwrdd Rhaglen wrthym fod y cyfarfodydd chwarterol yn ffordd ddefnyddiol iawn o adolygu perfformiad a bod materion o ran y gweithlu yn cael eu trafod yn rheolaidd.

Cyn cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen, mae Grŵp Rheoli Lleol yn cyfarfod bob mis ym mhob un o'r canolfannau. Diben y grwpiau hyn yw adolygu perfformiad, canlyniadau arolygon ac unrhyw hysbysiadau Datix²², neu gwynion ac adborth. Nodwyd bod pob grŵp o staff wedi'i gynrychioli yn y Grwpiau Rheoli Lleol, a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn. Roedd yn gadarnhaol gweld bod Grŵp Rheoli Lleol cyfunol wedi'i sefydlu 18 mis yn ôl rhwng canolfannau Caerdydd ac Abertawe er mwyn cefnogi prosesau cydweithredol, a chaiff cyfarfodydd eu cynnal bob tri mis.

Roedd arweinwyr clinigol radiolegol dynodedig ym mhob canolfan, a oedd yn bennaf cyfrifol am y materion clinigol, ac a oedd yn darparu cyngor meddygol proffesiynol i bennaeth y rhaglen. Roedd yn gadarnhaol bod staff y canolfannau yn canu clodydd yr arweinwyr clinigol am ddarparu cymorth ac arweiniad. Hefyd, roedd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol Pennaeth y Rhaglen, a disgrifiwyd y cymorth rhagorol a roddwyd i bob un o'r canolfannau rhanbarthol.

Roedd rheolwyr llinell ac arweinwyr penodol ar gyfer y grwpiau o staff ym mhob canolfan. Roedd hyn yn cynnwys rheolwr canolfan a dirprwy rheolwr sy'n goruchwylio'r gwaith asesu (ysgrifenyddion meddygol) a thimau gweinyddol. Fodd bynnag, roedd absenoldebau staff parhaus wedi arwain at yr angen am drefniadau hirdymor i rannu dyletswyddau rheoli mewn rhai ardaloedd. Roedd hyn yn cynnwys rheolwr canolfan Abertawe a oedd yn rheoli canolfannau Abertawe a Chaerdydd yn gyffredinol, a rheolwr radiograffeg canolfan Abertawe a oedd yn rheoli timau radiograffeg Abertawe a Chaerdydd. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n gadarnhaol am y trefniadau hyn yn gyffredinol, gwnaeth rhai o'r sylwadau yn yr arolwg staff dynnu sylw at bryderon am absenoldeb rheolwr llinell parhaol. Hefyd, cafwyd rhai sylwadau gan staff o ganolfan Wrecsam a oedd yn teimlo y gallai'r ganolfan honno fod yn cael ei hanwybyddu.

²² System rheoli digwyddiadau wedi'i theilwra yw Datix a all gefnogi practisau i gofnodi a dadansoddi Digwyddiadau Arwyddocaol.

Ar y cyfan, yn ein harolwg staff, roedd 75 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Ar lefel ranbarthol, y canlyniadau oedd 83 y cant ar gyfer y gogledd, 67 y cant ar gyfer y gorllewin a 65 y cant ar gyfer y de-ddwyrain. Gallai'r gwasanaeth fod yn awyddus i ystyried y canlyniadau hyn mewn unrhyw arolwg staff mewnol yn y dyfodol neu gyfarfodydd tîm. Cafwyd llawer o sylwadau cadarnhaol yn yr arolwg, a oedd yn nodi bod Bron Brawf Cymru yn lle da i weithio ynddo. Hefyd, dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau bod y staff yn ymfalchïo yn eu gwaith.

"Mae Bron Brawf Cymru yn lle gwych i weithio ynddo, mae trosiant isel o staff, a chredaf mai'r rheswm dros hyn yw bod y rhan fwyaf o'r bobl yn hapus yn eu gwaith ac yn fodlon ar y gefnogaeth maent yn ei chael gan y rheolwyr."

"Mae gweithio yn Bron Brawf Cymru yn golygu wynebu heriau dyddiol, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt i'w gweld ar ddechrau fy ngyrfa. Er gwaethaf hyn credaf yn gryf ei fod ar y cyfan yn lle cyfeillgar i weithio ynddo ac, yn sicr yn ein huned ni, mae awyrgylch cyfeillgar, proffesiynol a chefnogol."

"Mae Bron Brawf Cymru yn lle gwych i weithio ynddo gyda staff ymroddedig sydd bob amser yn rhoi'r claf yn gyntaf."



Barn staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth

Hefyd, gwnaethom ofyn cyfres o gwestiynau am eu barn ynghylch adrodd gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae dysgu o ddigwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaeth diogel, effeithiol a blaengar, ac mae'n arwain at well canlyniadau i fenywod. Ar y cyfan, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn, gyda 99 y cant o'r ymatebwyr yn dweud y byddent yn hapus i adrodd unrhyw wallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau, ac roedd 96 y cant o'r farn eu bod yn cael eu hannog i adrodd digwyddiadau o'r fath. Hefyd, dywedodd 91 y cant o'r staff fod y rheolwyr yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiadau. Fodd bynnag, nododd rhai o'r staff nad oedd yr adborth cadarnhaol o ganmoliaeth bob amser yn cael ei rannu, ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr agweddau cadarnhaol ynghyd â'r adborth negyddol, er mwyn helpu i roi hwb i forâl.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Sicrhau bod systemau ar waith i rannu adborth cadarnhaol yn rheolaidd mewn ffordd systematig â phob aelod o staff y gwasanaeth.



Perfformiad ac Ansawdd

Roedd trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith, a oedd yn cynnwys adrodd yn rheolaidd ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol, ar lefel gwasanaeth gyffredinol ac ar lefel canolfan unigol. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad integredig ar berfformiad, a gaiff ei lunio bob deufis ac a adolygir yng nghyfarfodydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cadeirydd, y prif weithredwr, a chyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Diben yr adroddiad integredig ar berfformiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol o'r rhaglenni o fewn yr is-adran sgrinio, sydd, yn achos Bron Brawf Cymru, yn cynnwys adrodd ar amseroldeb apwyntiadau clinigau asesu fel dangosydd allweddol ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys naratif da i egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd, ond mae'r problemau o ran perfformiad yn y gorllewin sy'n ymwneud ag apwyntiadau clinigau asesu amserol wedi bodoli ers cryn dipyn. Dywedodd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw wrthym, er eu bod yn poeni am berfformiad gwael yn y gorllewin ac yn ceisio rhoi camau ar waith i liniaru unrhyw oedi, fod rhaglenni eraill yn yr is-adran sgrinio ehangach a ddosbarthwyd yn rhai risg uwch ac a oedd yn peri mwy o bryder, megis Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru²³.

Roedd adroddiadau manwl ar berfformiad yn cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd y Rhaglen a chyfarfodydd misol y Grŵp Rheoli Lleol. Fel rhan o hyn adolygwyd yr Adroddiad ar Weithgarwch Perfformiad Sgrinio (SPAR). Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod data SPAR yn cael eu hadolygu'n fanwl, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer amseroldeb trefnu clinigau asesu, ynghyd â dangosyddion eraill o'r safonau cenedlaethol. Roedd yr adroddiadau yn glir ac yn darparu codau lliw er mwyn dangos yn hawdd a oedd canlyniadau uwchlaw'r targed, yn agos at y targed neu islaw'r targed. Fodd bynnag, nodwyd bod y targed ar gyfer amseroldeb apwyntiadau clinigau asesu yn 90 y cant yn hytrach na'r safon bresennol o 98 y cant yn Lloegr.

Pan drafodwyd hyn â'r staff rheoli, cawsom wybod nad oedd y targed o 98 y cant yn cael ei ddefnyddio am fod y perfformiad cyfredol yn sylweddol is na'r gwerth hwn, ac felly roedd y targed o 90 y cant yn fwy priodol. Fodd bynnag, mae'r broses newydd o ddarllen delweddau rhwng canolfannau'r gogledd a'r gorllewin wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella canlyniad y mesur hwn, ac felly dylai'r safon ofynnol genedlaethol o 98 y cant gael ei defnyddio.

Argymhellion

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru wneud y canlynol:

Cysoni'r targed ar gyfer cyfran y menywod a gaiff gynnig eu hapwyntiad cyntaf yn y clinig asesu o fewn tair wythnos i'r apwyntiad sgrinio cychwynnol â'r safon ofynnol genedlaethol o 98%.

Roedd arweinyddiaeth gref ym maes Sicrhau Ansawdd yn cael ei darparu gan yr arweinydd Sicrhau Ansawdd, ac roedd trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd o fewn y timau radioleg. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad monitro ansawdd bob chwe mis a chynhadledd flynyddol i gymharu perfformiad ac ansawdd yn y tri rhanbarth. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth ansawdd a gwella.

Hefyd nodwyd, fel rhan o'r trefniadau ansawdd, fod pob aelod o'r staff sy'n darllen delweddau yn cael dadansoddiad cynhwysfawr o'u hystadegau darllen ddwywaith y flwyddyn, er enghraifft, y gyfradd ailalw a'r gyfradd canfod cancer. Mae'r canlyniadau hefyd yn cael eu hadolygu gan yr arweinydd Sicrhau Ansawdd sy'n nodi unrhyw allanolynnau ac yn ymgysylltu â'r arweinydd clinigol i drafod unrhyw faterion. Roedd yn gadarnhaol clywed bod hyn yn helpu i gefnogi hyfforddiant a sicrhau bod modd cyfiawnhau cyfran y menywod y mae'r clinig yn eu gweld, er mwyn lleihau nifer y menywod a gaiff eu hailalw'n ddiangen i glinig asesu.



²³ Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn wasanaeth a ddarperir ledled Cymru sydd wedi'i gynllunio i ganfod retinopathi diabetig a all beryglu'r golwg ar gam cynnar cyn colli golwg, a thrwy hynny sicrhau y rhoddir triniaeth yn gynnar ac y gellir osgoi colli golwg.


Casgliadau

Mae ein hadolygiad o Bron Brawf Cymru wedi nodi rhai materion ynghylch amseroldeb y gofal a gaiff menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol iawn nodi, ar y cyfan, fod y menywod a gafodd eu hailalw i glinig asesu ac sydd wedi cael canlyniad mamogram abnormal wedi cael profiad heb ei ail. Roedd yn amlwg mai helpu i dawelu meddyliau menywod drwy'r broses oedd bwysicaf i'r staff. Hefyd, roedd y staff yn ofalgar, yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i fenywod. Fodd bynnag, gwnaethom nodi heriau o ran y gweithlu sy'n dangos bod anghydraddoldeb ledled Cymru yn od ardal y mae menyw yn byw ynddi, sy'n effeithio ar amseroldeb y gofal a gânt.

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rheoli heriau hirdymor o ran y gweithlu drwy rannu staff a dyletswyddau darllen mamogramau rhwng y canolfannau sgrinio yn y de-ddwyrain a'r gorllewin. Roedd yn galonogol iawn gweld bod proses newydd wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar, lle mae canolfan y gogledd yn cwblhau cyfran fawr o ddarlleniadau'r gorllewin. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn yr amser y mae menywod yn aros am apwyntiad clinig asesu yn y gorllewin. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd y trefniant hwn yn gynaliadwy yn yr hirdymor, oherwydd gallai roi pwysau ychwanegol ar ranbarthau eraill o dan y model rhanbarthol cyfredol.

Yn ystod ein sgysiau â'r staff, roedd yn amlwg, er bod Bron Brawf Cymru yn wasanaeth cenedlaethol, ei fod yn cael ei ddarparu ar sail model rhanbarthol ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod y gwasanaeth fel petai'n symud i gyfeiriad model mwy cyfannol ar gyfer Cymru gyfan er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth a gaiff ei ddarparu yn amserol ac yn gyson. Roedd cynllun newydd ar gyfer y gweithlu ar gamau datblygu cynnar iawn a dylid mynd ati i'w ddatblygu ar fyrder. Pan gaiff ei gwblhau, dylai'r cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd o fewn strwythur llywodraethu ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd trefniadau sicrwydd cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod menywod yn cael y canlyniad cywir a'u bod yn cael eu cyfrif. Hefyd, roedd prosesau cadarn ar waith i fonitro perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae cyfle i symleiddio a safoni rhai prosesau mewnol er mwyn gwella effeithlonrwydd a chysondeb prosesau gweinyddol craidd.



Beth nesaf?

Disgwylwn i Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried yr argymhellion yn yr adolygiad hwn yn ofalus a chwblhau'r cynllun gweithredu ar gyfer ymateb rheolwyr yn Atodiad A. Rydym yn gobeithio y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan Bron Brawf Cymru ymhellach a llywio gwaith ac ymchwiliadau pellach yn y meysydd rydym wedi tynnu sylw atynt.

Yn ystod ein gwaith maes, gwnaeth rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw godi pryderon am anghydraddoldeb posibl ymhlith grwpiau o fenywod ac ar draws proffiliau demograffig, er enghraifft, sut y gall amddifadedd, lleoliad daearyddol ac ethnigrwydd ddylanwadu ar y gallu i gael gwasanaethau sgrinio. Er bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, gallai fod yn fuddiol i gyrff eraill ymchwilio ymhellach i faterion darpariaeth deg a'r defnydd o wasanaethau sgrinio'r fran ledled Cymru.



Atodiad A – Cynllun gweithredu ar gyfer ymateb rheolwyr

O ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwn, rydym wedi nodi'r argymhellion canlynol yn y tabl isod. Mae adran wedi'i chynnwys i ddangos y camau a gymerir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i bob argymhelliad.

Safon Iechyd a Gofal: 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi

Argymhelliad

Cynnal yr archwiliad o safonau cenedlaethol Nyrsys Gofal y Fron ym mhob rhanbarth.

Cam Gweithredu

Cynnal archwiliad blynyddol pellach o safonau cenedlaethol nyrsio gofal y fron yn y de-ddwyrain yn ystod 2021, ac yn y gogledd yn ystod 2022, fel y cytunwyd arno'n flaenorol gan fwrdd rhaglen BBC

Adrodd ar yr uchod i fwrdd rhaglen BBC a nodi meysydd i'w gwella, gan rannu'r hyn a ddysgir ledled Cymru

Swyddog Cyfrifol

Amserlen

Pennaeth Nyrsio

2021,2022



Safon Iechyd a Gofal: 4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion**Argymhelliad**

Datblygu dogfennaeth i fenywod â chanser er mwyn nodi'r llwybr gofal a thriniaeth yn glir, gan gynnwys cyfeirio menywod at bwynt cyswllt ar bob cam.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Adolygu a diweddarau llenyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth. Pennaeth Nyrsio a Nyrsys Gofal y Fron i'w hadolygu gyda'r grŵp gwybodaeth y cyhoedd.	Pennaeth Nyrsio	Mawrth 2021

Argymhelliad

Diweddarau'r testun yn y daflen er mwyn sicrhau bod yr amserlenni priodol ar gyfer anfon canlyniadau at fenywod wedi'u cynnwys.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Diweddarau llenyddiaeth Defnyddwyr Gwasanaeth (Taflen Eich helpu chi i benderfynu) er mwyn adlewyrchu amseroedd aros safonol ar gyfer canlyniadau ar bob cam o'r llwybr.	Rheolwr Llwybr y Rhaglen Sgrinio	Mawrth 2021

Argymhelliad

Adolygu'r geiriad ar y llythyr ailalw er mwyn sicrhau nad yw'n codi cymaint o fraw ac yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i'r menywod.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ar y cyd â Thîm Ymgysylltu Sgrinio, Grŵp Gwybodaeth y Cyhoedd BBC i'w adolygu, gyda'r grwpiau Sicrhau Ansawdd ac arweinwyr clinigol yn ei adolygu ac yn ei gymeradwyo.	Rheolwr Llwybr y Rhaglen Sgrinio	Rhagfyr 20

Argymhelliad

Darparu mwy o wybodaeth am barcio i gynnwys gwahanol opsiynau o ran ble i barcio a pha mor hir y gall ei gymryd i ddod o hyd i le.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Pob canolfan sgrinio i adolygu'r daflen wybodaeth leol a nodi opsiynau parcio a'r amser sydd ei angen.	Rheolwr Llwybr y Rhaglen Sgrinio	Medi 20

Safon Iechyd a Gofal: 5.1 Mynediad Amserol**Argymhelliad**

Nodi'n gadarn beth yw'r trefniant newydd o ran rhannu'r gwaith darllen rhwng Canolfan Abertawe a chanolfan Llandudno, gan gynnwys am ba hyd y bydd y trefniant ar waith.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Eitem i'w thrafod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Bwrdd Rhaglen BBC ym mis Awst er mwyn cytuno ar amserlenni	Pennaeth y Rhaglen	Awst 2020

Safon Iechyd a Gofal: 7.1 Y Gweithlu**Argymhelliad**

Edrych ar y materion a godwyd o ran yr ymeimlad ymhlith rhai o'r staff fod rhaniad rhwng rhanbarthau.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Grwpiau Rheoli Lleol i edrych ar gyfleoedd i staff gydweithio rhwng rhanbarthau. Ychwanegu'r eitem at agenda cyfarfod y Grŵp Rheoli Lleol a ffurfio is-grwpiau fel sydd ei angen gyda'r staff yn cael eu cynnwys i roi mentrau cytûn ar waith.	Cydgysylltwyr Canolfannau a Phennaeth y Rhaglen	Mawrth 2021

Argymhelliad

Datblygu a gweithredu cynllun y gweithlu er mwyn amlinellu'r nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer ymdrin â'r problemau sy'n wynebu'r gweithlu er mwyn darparu gwasanaeth amserol. Dylid ei rannu â staff ar bob lefel o'r gwasanaeth er mwyn casglu eu barn a chael eu mewnbwn.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Diweddarau cynllun drafft cyfredol y gweithlu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni, gan nodi camau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor uchelgeisiol, a rennir wedyn i gael sylwadau drwy gyfarfodydd grwpiau rheoli lleol ym mhob rhanbarth.	Pennaeth y Rhaglen	Rhagfyr 2020

Argymhelliad

Ystyried cyfleoedd i sicrhau bod digon o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r staff yn y gogledd a'r gwasanaeth ehangach.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ar y cyd â Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu Clinigol Sgrinio, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio i weithio gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol er mwyn hwyluso hyfforddiant ar ffurf fideogynadledda i'r staff. Cysylltwyd â chwmnïau hyfforddi allanol i ddarparu'r sesiynau hyn drwy gyfleusterau fideogynadledda	Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio – Philipa Bassett	Ionawr 2021

Argymhelliad

Ystyried cyfleoedd i sefydlu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol i ymarferwyr cynorthwyol.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar gyfleoedd i Ymarferwyr Cynorthwyol a llunio argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd Rhaglen BBC	Rheolwyr Radiograffeg Rhanbarthol	Mawrth 2021

Argymhelliad

Datblygu strategaeth ar gyfer addysgu a hyfforddi sy'n ystyried pob rôl ym mhob un o'r rhanbarthau daearyddol.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ar y cyd â Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu Clinigol Sgrinio, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio i weithio gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol er mwyn hwyluso hyfforddiant ar ffurf fideogynadledda i'r staff. Gobeithir, yn dilyn y cynllun peilot ac adborth gan y rhai dan sylw, y byddwn yn gallu defnyddio'r dull hwn yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod staff yn gallu cael yr hyfforddiant mewn modd amserol. Bydd angen sicrhau nad yw staff mewn rhanbarthau daearyddol gwahanol dan anfantais am eu bod yn cael hyfforddiant drwy fideogynadledda, a bod y ddarpariaeth yn deg mewn ardaloedd lle y bu'n her darparu hyfforddiant yn hanesyddol.	Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio – Philipa Bassett	Ionawr 2021

Health and Care Standard : Governance, Leadership and Accountability

Argymhelliad

Ystyried yr holl opsiynau i ddefnyddio technoleg ddigidol i wahodd menywod i apwyntiadau a'u hatgoffa am ddyddiadau ac amseroedd, sy'n cynnwys achosion o aildrefnu apwyntiadau.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda'r nod o gyflwyno gwasanaeth atgoffa drwy neges destun ar gyfer BBC Bwriedir ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Medi 2020.	Rheolwr Cyffredinol Tîm Busnes Sgrinio	Medi 2020

Argymhelliad

Ystyried rhinweddau'r gwahanol drefniadau lleol ar gyfer prosesau gweinyddol a safoni'r prosesau lle y bo modd.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Yr is-grŵp gweinyddol i nodi meysydd lle nad yw prosesau gweinyddol yn safonol a'u hadolygu a'u diwygio ar y cyd â'r timau perthnasol.	Rheolwr y Rhaglen Llwybrau Sgrinio	Rhagfyr 2020

Argymhelliad

Cyflwyno proses gyson a systematig o adolygu, diweddarau a rhannu newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau. Dylai hyn hefyd gynnwys rheoli fersiynau.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Nodir prosesau a gweithdrefnau yn Llawlyfr Ansawdd BBC, ac fel y caiff y llawlyfr ansawdd ei ddiweddarau a'i adolygu caiff ei storio ar y system rheoli dogfennau (SharePoint) lle caiff fersiynau eu rheoli'n awtomatig. Fe'i cedwir ar ffurf electronig. Caiff y Llawlyfr Ansawdd ei adolygu a'i ddiweddarau bob chwarter gan grŵp Adolygu'r Llawlyfr Ansawdd.	Pennaeth Rhaglen Bron Brawf Cymru	Ar hyn o bryd ac yn barhaus

Argymhelliad

Sicrhau bod systemau ar waith i rannu adborth cadarnhaol yn rheolaidd mewn ffordd systematig â phob aelod o staff y gwasanaeth.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Proses gyfredol</p> <ul style="list-style-type: none"> - caiff yr holl ganmoliaeth a ddaw i law drwy daflenni sylwadau ei dwyn ynghyd a'i rhoi ar Datix, a chyflwynir adroddiadau i'r Grŵp Rheoli Lleol, Bwrdd y Rhaglen a chyfarfodydd tîm, a'u harddangos ar hysbysfyrdau. - Caiff yr holl ganmoliaeth a ddaw i law drwy lythyr/cerdyn yn lleol ei rhoi ar Datix, a'i hadrodd yng nghyfarfodydd Grwpiau Rheoli Lleol, a rhoddir copïau i'r tîm/unigolyn a'r rheolwr llinell. - Yr holl ganmoliaeth a ddaw i law yn ganolog – swyddfa'r cyfarwyddwr/gwefan. Ysgrifenyddiaeth Cymru gyfan yn ei rhoi ar Datix. - Cyflwynir yr holl ganmoliaeth ar Datix i Fwrdd Rhaglen BBC <p>Adolygu'r broses gyfredol drwy Fwrdd Rhaglen BBC, ac ychwanegu eitem at agenda cyfarfod mis Medi 2020</p>	Rheolwr y Rhaglen Llwybrau Sgrinio	Medi 20

Argymhelliad

Cysoni'r targed ar gyfer cyfran y menywod a gaiff gynnig eu hapwyntiad cyntaf yn y clinig asesu o fewn tair wythnos i'r apwyntiad sgrinio cychwynnol â'r safon ofynnol genedlaethol o 98%.

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Yn dilyn COVID-19, caiff y galw am asesiadau a'r gallu i'w cynnal eu monitro gan y Grwpiau Rheoli Lleol ym mhob rhanbarth er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddarllen ffilmiau a threfnu apwyntiadau clinigau asesu mor effeithiol â phosibl. Bydd angen i'r gwaith asesu gael ei fonitro a bydd angen sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Bydd Bwrdd Rhaglen BBC yn goruchwyllo ar lefel reoli ledled Cymru gyfan wrth i'r rhaglen ddechrau ar y cam adfer yn dilyn saib oherwydd y pandemig.</p>	Pennaeth y Rhaglen	Hydref 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

Ffôn: **0300 062 8163**

E-bost: **hiw@gov.wales**

Gwefan: **www.agic.org.uk**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English